TELERAU CYFFREDINOL (PEDWERYDD ARGRAFFIAD, 2021):
AR GYFER YR HOLL GYNNWYS A GOMISIYNIR GAN S4C O DAN GOD YMARFER (2018) A THELERAU MASNACH S4C (TRYDYDD ARGRAFFIAD, 2020) A FWRIEDIR YN BENNAF I'W DDARLLEDU AR DELEDU LLINOL A GWASANAETHAU DAL I FYNY DIGIDOL

Rhif Cynnwys
Y Cymal

1. Diffiniadau a Dehongliad

2. Cynhyrchu Rhaglen S4C
   - 2.1 Materion Golygyddol
   - 2.9 Cydymffurfiaeth
   - 2.10 Rhybudd Hawlfraint a Chydnabyddiaethau
   - 2.13 Hyrwyddo a Marchnata
   - 2.23 Plant a phobl fregus
   - 2.26 Iechyd a Diogelwch
   - 2.31 Gwarchod Data
   - 2.32 Yswiriant
   - 2.41 Cadw yn Ddiogel
   - 2.42 Polisi Dethol ac Archifo TAC
   - 2.43 Bargeinio Torfol
   - 2.44 Isdeitlo, Arwyddo a Sain-ddisgrifio
   - 2.46A Albert
   - 2.47 Anghydfodau

3. Cyfleu
   - 3.1 Gofynion Cyfleu
   - 3.3 Dyddiad Cyfleu
   - 3.4 Gwybodaeth am y Rhaglen
   - 3.7 Derbyn Rhaglen S4C
   - 3.9 Iawndal Ariannol Penodedig am Gyfleu yn hwyr neu'n annigonol

4. Darpariaethau Ariannol
   - 4.1 Taliadau i'r Cynhyrchydd
   - 4.6 Adroddiadau Cost a Datganiadau
   - 4.11 Archwilio Costau
   - 4.15 Elfennau Allweddol
   - 4.16 Cyfrif Banc
   - 4.20 Gorwariant
   - 4.21A Tanwariant
   - 4.22 Hyfforddiant

5. Trwydded, Ataliad, Hawliau Gwaelodol ac Ymelwa
   - 5.1 Trwydded
   - 5.2 Hawliau Ehangach ac oriau darlledu
   - 5.3 Cyfnod Estynedig y Drwydded
   - 5.4 Darllediadau Ychwanegol a Hawliau Fideo-Ar-Alw S4C
   - 5.11 Ataliadau
   - 5.14 Hawliau Gwefan
   - 5.20 Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol

5.26 Hawliau Marsïandiaeth
5.28 Hawliau Clipiau
5.29 Hawliau Hyrwyddo
5.30 Hawliau Theatrig ac An-Theatrig
5.31 Gwyliau Ffilm a Theledu
5.32 Hawliau Gweithredu
5.34 Cyfamod er Sicrwydd Pellach
5.35 Hawliau Gwaelodol a Chliriadau
5.39 Cadwyn Teitl
5.42 Ymelwa
5.43 Enillion Net
5.44 Talu
5.45 Datganiadau

6. Gwarantau ac Indemniadau
6.2 Dirmyg Llys
6.3 Indemniad
6.4 Dyletswydd i liniaru

7. Cymryd Drosodd a Chanlyniadau Cymryd Drosodd

8. Tymor a Darpariaethau Terfynu
8.1 Cyfnod y Drwydded
8.2 Terfynu
8.3 Canlyniadau Terfynu

9. Darpariaethau Cyffredinol
9.1 Aseiniad
9.4 Force Majeure
9.7 Gwrth-Gyfrif
9.8 Rhybuddion
9.10 Ildiad
9.14 Cyfrinachedd
9.17 Dehongliad

10. Rhyddid Gwybodaeth
11. Atal Llygredigaeth
11A. Atal Caethwasiaeth a Masnachu Pobl
12. Atal Twyll

Cymal 1 – Diffiniadau a Dehongliad

1.1 Mae'r diffiniadau canlynol yn weithredol yn y Drwydded: -

Adroddiadau: yr adroddiadau ar gynnydd a'r adroddiadau cost i'w cyflwyno gan y Cynhyrchydd i S4C ac a bennir yn yr Atodiad neu'r Drwydded**;**

Arwystl: ar ffurf arwystl cyfreithiol ac aseiniad o'r hawlfraint ar ffurf gwarant dros asedau y Cynhyrchydd yn y Rhaglen ac yn y Deunydd Hawliau Gwaelodol, y fath arwystl i fod ar ffurf safonol S4C.

Ataliad(au): y cyfyngiad(au) ar Ymelwa ag a nodir yng Nghymal 5.10;

Atodiad: yr atodiad sydd ynghlwm i'r Drwydded;

Atodlen y Deunydd Cyfleu: yr atodlen a gynhwysir yn Adran D o Ran 2 yr Atodiad;

Banc: y banc (os o gwbl) a bennir yn yr Atodiad;

Brîff Golygyddol a Busnes: y brîff sydd ynghlwm yn Rhan I o'r Atodiad;

Canllawiau a Pholisïau: (i) y codau, canllawiau, polisïau a'r gofynion sy'n berthnasol i unrhyw raglen neu unrhyw ddeunydd arall a Ddarlledir ar Wasanaethau S4C o bryd i'w gilydd, sef y casgliad o ddogfennau sy'n ymddangos ar neu wedi'u rhestru ar y Wefan Gynhyrchu o fewn yr Adran 'Ffurflenni' a 'Chanllawiau' ar adeg arwyddo'r Drwydded a (ii) holl godau, canllawiau, polisïau a gofynion Ofcom fel y'u cyhoeddir, amrywir neu eu disodlir o bryd i'w gilydd sy'n weithredol i Wasanaethau S4C gan gynnwys Canllawiau Cydymffurfiaeth S4C, a bydd y term 'y Canllawiau a Pholisïau' yn cynnwys y cyfryw godau, canllawiau a gofynion ar y cyd oni bai bo'r Drwydded yn cyfeirio at unrhyw un neu fwy ohonynt yn benodol mewn unrhyw achos;

Canllawiau Copïau Preifat: y Canllawiau Copïau Preifat a gyhoeddwyd ar y Wefan Gynhyrchu;

Canllawiau Cydymffurfiaeth S4C: Cod Darlledu Ofcom a'r dogfennau sydd ar gael o dan y pennawd Canllawiau Cydymffurfiaeth ar y Wefan Gynhyrchu gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Ganllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni, Gwrthdaro Buddiannau a Buddiannau Gwleidyddol, Canllawiau Iaith Tramgwyddus ac unrhyw fersiynau wedi'u diweddaru o ddogfennau o'r fath ac unrhyw ofynion ar wahân a gyhoeddir gan S4C o bryd i'w gilydd;

Canllawiau Ffotograffiaeth: y canllawiau y cytunwyd arnynt rhwng S4C a TAC (ni ddylai'r naill barti na'r llall atal caniatâd yn afresymol) a'u cyhoeddi ar y Wefan Gynhyrchu o bryd i'w gilydd.

Canllawiau Iaith Gymraeg: y canllawiau iaith Gymraeg sydd ar gael ar y Wefan Gynhyrchu.

Canllawiau Isdeitlo: y canllawiau yn dwyn y teitl "Cyflwyno Deunyddiau Is-deitlau i S4C";

Cerrig Milltir: y cerrig milltir cymeradwyo a chynhyrchu ar gyfer Rhaglen S4C a bennir yn yr Atodiad;

Cod Ymarfer: Cod Ymarfer S4C wrth Gomisiynu Cynnwys gan Gynhyrchwyr Annibynnol Trydydd Fersiwn – Hydref 2018 ac unrhyw fersiwn diwygiedig o'r fath ddogfen ac unrhyw ddogfen cysylltiol y'i cyhoeddir gan S4C o dro i dro;

Comisiynydd: y comisiynydd a enwir yn yr Atodiad;

Comisiynydd Gwybodaeth: y comisiynydd gwybodaeth a benodwyd dan y DdRhG;

Clipiau: Clipiau o Raglen S4C fel y'i cyflëwyd i S4C;

Cwmnïau Teulu: unrhyw is-gwmni neu gwmni dal ac unrhyw is-gwmni o'r cyfryw gwmni dal (a diffinnir "cwmni dal" ac "is-gwmni" yn Adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006);

Cyfleu: cyfleu'r Deunydd Cyfleu yn unol â'r Anghenion Cyfleu a holl delerau ac amodau'r Drwydded erbyn y Dyddiad Cyfleu a dehonglir y ferf "Cyfleu" a'r term "Cyfleu" yn unol â'r uchod;

Cyfnod Estynedig y Drwydded: cyfnod pellach o naill ai tair (3) blynedd (yn achos Rhaglenni Plant ac Addysgol) neu ddwy (2) flynedd (yn achos pob Rhaglen arall), yn y naill achos neu'r llall, yn dechrau ar y diwrnod cyntaf yn dilyn diwrnod olaf Cyfnod y Drwydded ac sy'n dod i rym yn unol â Chymal 5.3;

Cyfnod y Drwydded: naill ai:-

(i) Y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad (neu, os yw'n wahanol, dyddiad effeithiol) y Drwydded ac yn parhau wedi hynny am saith (7) mlynedd (yn achos Rhaglenni Plant ac Addysgol neu) neu bum (5) mlynedd (yn achos pob Rhaglen arall) o ddyddiad y Darllediad cyntaf (neu, os yw'n premiere ar-lein, y sicrhau bod Rhaglen S4C ar gael drwy'r Hawliau Ar-lein) ar Wasanaethau S4C lle bo'r Rhaglen yn rhaglen unigol neu'n ffilm neu, yn achos cyfres, mewn perthynas â phob Pennod unigol, naill ai saith (7) (yn achos Rhaglenni Plant ac Addysgol) neu bum (5) mlynedd (yn achos pob Rhaglen arall) o ddyddiad y Darllediad cyntaf neu'r sicrhau bod y bennod honno ar gael drwy'r Hawliau Ar-lein ar Wasanaethau S4C ar yr amod os nad yw S4C (heblaw am yn yr achosion a nodir isod) wedi Darlledu Rhaglen S4C neu'r Bennod gyntaf fel sy'n berthnasol, na sicrhau ei bod ar gael drwy'r Hawliau Ar-lein, o fewn chwe (6) mis i Gyfleu Rhaglen S4C neu'r Bennod berthnasol, yna bydd Cyfnod y Drwydded yn dechrau ar y dyddiad yn union chwe (6) mis yn dilyn y dyddiad Cyfleu. Nid yw'r amod uchod yn berthnasol i Raglenni a gomisiynir ymhell ymlaen llaw o'u dyddiadau darlledu disgwyliedig ond lle bo'r Cynhyrchydd yn dymuno cynhyrchu neu gyfleu'r Rhaglen ynghynt na'r Dyddiad Cyfleu cytundebol a/neu unrhyw Raglenni ble mae S4C a'r Cynhyrchydd yn cytuno ar drefniadau gwahanol; neu

(ii) y cyfryw gyfnod arall ag a nodir yn yr Atodiad a fydd yn rhagori dros y Telerau Cyffredinol;

Cyfnod yr Ataliad: oni pennir fel arall yn yr Atodiad, y cyfnodau a nodir ym mharagraff 15 o'r Telerau Masnach;

Cyfreithiau Diogelu Data: i) Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth weithredu genedlaethol, fel y'u diwygiwyd neu a ddiweddarwyd o bryd i'w gilydd, yn y DU; ac yna (ii) unrhyw ddeddfwriaeth olynol i'r GDPR neu Ddeddf Diogelu Data 2018; a (iii) unrhyw gyfreithiau diogelu data cenedlaethol newydd;

Cyfres sy'n Dychwelyd: cyfres sy'n Rhaglen/Cyfres Ddilynol i raglen neu gyfres flaenorol a gomisiynwyd gan S4C;

Cyfrif Banc: os gofynnir amdano yn yr Atodiad, y cyfrif banc a agorir gan y Cynhyrchydd dan Gymal 4.16;

Cyllideb: y gyllideb ar gyfer cynhyrchu a Chyfleu'r Rhaglen a sicrhau'r holl hawliau sy'n ofynnol gan y Drwydded, sef y gyllideb sy'n rhan o'r Briff Golygyddol a Busnes ac sydd ynghlwm wrth y Drwydded;

Cynhyrchydd: y cynhyrchydd a nodir yn y Drwydded;

Cynnwys S4C: Rhaglen S4C a'r Deunydd Crai a phob rhan ohonynt;

Cytundebau Perthnasau Diwydiannol: y cytundebau sy'n rheoli perthnasau diwydiannol fel y'u disgrifiwyd ym mharagraff 10 o'r Telerau Masnach;

Chwarter: cyfnod o dri mis calendr, yn diweddu ar 30 Fehefin, 30 Medi, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn galendr o ddyddiad y Drwydded;

Darllediad Cydamserol: darllediad cydamserol Raglen S4C ar fwy nac un cyfrwng neu blatfform sydd, neu a fydd, yn wybyddus o hyn allan ar yr un pryd yn union fwy neu lai

Darllediad Dilynol: yr hawl i ddarlledu'r Rhaglen ar unrhyw elfen o Wasanaethau S4C neu wasanaeth y'i darperir gan drwyddedai S4C sydd yn cynnig darllediad wedi saib amser o'r allbwn ynghyd â'r hawl i ddarlledu yn gydamserol;

Darlledu/Darllediad: unrhyw fodd o ddarlledu sy'n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn boed yn llinol neu'n rhyngweithiol a chan gynnwys ar bob platfform analog a digidol a rhwydweithiau priodol fel y diffinnir ym mharagraff 5(8) o Atodlen 12 i Ddeddf 2003 ond (heblaw wrth ymarfer yr Hawliau Ailddarlledu Cydamserol) ac eithrio trwy gyfrwng yr Hawliau Ar-Lein. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd yr ymadrodd 'Darlledu' yn cynnwys darllediad cydamserol o'r Rhaglen wrth ymarfer yr Hawliau Ad-drosglwyddo Cydamserol;

Data Personol: mae iddo'r ystyr a roddir i'r term hwnnw yn y Cyfreithiau Diogelu Data

Datganiadau Banc: os gofynnir amdanynt yn yr Atodiad, datganiadau a gyhoeddir gan y Banc mewn perthynas â'r Cyfrif Banc;

Deddf 2003: Deddf Cyfathrebiadau 2003;

Deddf: Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 fel y'i diwygiwyd ac mewn grym o bryd i'w gilydd;

Deunydd Crai: deunydd a gynhyrchir yn ystod y gwaith o gynhyrchu'r Rhaglen ond nad yw'n cael ei gynnwys yn Rhaglen S4C fel y caiff ei Chyfleu;

Deunydd Cyfleu: yr holl ddeunyddiau cyfleu, dogfennau a'r wybodaeth y mae angen eu cyfleu mewn perthynas â Rhaglen S4C yn sgil y Gofynion Cyfleu;

Deunydd Hawliau Gwaelodol: unrhyw ddeunydd y seiliwyd Rhaglen S4C arno neu a ymgorfforir yn Rhaglen S4C;

Deunydd Trydydd-bartïon: unrhyw ddeunydd a ymgorfforir neu y bwriedir ei ymgorffori yn Rhaglen S4C neu y mae Rhaglen S4C i'w seilio arno, y mae unrhyw rai o'r hawliau hawlfraint neu unrhyw hawliau eraill o ba bynnag natur wedi eu breinio yn unrhyw drydydd-bartïon neu a reolir ganddynt;

Diwrnod Gwaith: unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus;

DUK: Directors UK;

Dyddiad Cyfleu: y dyddiad(au) ac (os yw hynny'n berthnasol) yr amser ar gyfer Cyfleu'r Deunydd Cyfleu fel y'i/u nodir yn yr Atodiad neu'r cyfryw ddyddiad hwyrach ag y gall Rheolwr Gweithrediadau Cynnwys S4C (yn ôl ei (d)disgresiwn llwyr) gytuno iddo yn ysgrifenedig;

Dylif Ariannol: y dylif ariannol ar gyfer talu'r Ffi Drwydded sydd ynghlwm i'r Atodiad;

DdRhG: Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, unrhyw ddeddfwriaeth ddiwygio a/neu unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wnaed dan y ddeddf honno o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â'r fath ddeddfwriaeth;

Elfennau Allweddol: yr elfennau allweddol yn Rhaglen S4C neu sydd i'w defnyddio wrth gynhyrchu Rhaglen S4C sydd wedi'u nodi yn yr Atodiad;

Enillion Net: yr Incwm Gros mewn perthynas â'r Rhaglen, yn llai cyfanswm y canlynol:

(i) ffioedd comisiwn a threuliau sy'n daladwy i'r Cynhyrchydd ei asiantau a'i ddosbarthwyr mewn perthynas â'r Rhaglen na fydd mewn cyfanswm yn fwy na'r canlynol fel canran o'r Incwm Gros:
Teledu Daearol/Safonol yn y DG - (Comisiwn o 35%),
Teledu Lloeren/Ansafonol yn y DG - (Comisiwn o 35%),
Teledu Cebl/Lloeren/Ar Dâl yn yr UDA - (Comisiwn o 35%),
Teledu Rhwydwaith Masnachol UDA – Oriau Allfrig (Comisiwn o 35%),
Teledu Rhwydwaith Masnachol UDA – Oriau Brig (Comisiwn o 35%),
Teledu ledled y byd/ar Awyren/Clipiau - (Comisiwn o 35%),
Fideo yn y DG – (Comisiwn o 25%),
Fideo ledled y byd – (Comisiwn o 25%),

Marsiandïaeth ledled y byd – (Comisiwn o 35%),
Cyhoeddi ledled y byd – (Comisiwn o 30%);
Pob math o Fideo ar Alw ac eithrio Hawliau Fideo ar Alw S4C (Comisiwn o 25%);

(ii) y costau priodol o Ymelwa ar y Rhaglen gan gynnwys ond heb gyfyngiad costau printiau, taflenni, costau lansio a gweithgareddau hyrwyddol eraill, paneli, posteri, cludiant a thrafnidiaeth, Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau a'r costau technegol a gwaith arall sydd ei angen yn rhesymol er mwyn addasu'r Rhaglen ar gyfer Ymelwa ac ni fydd y cyfryw gostau'n fwy mewn cyfanswm na 5% o'r Incwm Gros;

Fideo Ar Alw: fideo ar alw, h.y. ar adeg a ddewiswyd gan y gwyliwr gan gynnwys er mwyn osgoi amheuaeth y gallu i'r gwyliwr:

(i) ddechrau, stopio, oedi, cychwyn eto; symud yr arddangosiad o Raglen S4C ymlaen a/neu yn ôl, gan gynnwys drwy wrthdroi EPG; a

(ii) cofnodi (e.e. ar PVR) a lawrlwytho/storio (e.e. drwy ap BBC iPlayer Downloads) Rhaglen S4C am uchafswm o 150 diwrnod.

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd gan y gwyliwr hawl i lawrlwytho Rhaglen S4C yn barhaol.

Force Majeure: force majeure fel ag y'i ddiffinnir yng Nghymal 8.4;

Ffenestr(i) Fideo Ar Alw: Cyfnod(au) 150 diwrnod yn ystod Cyfnod y Drwydded a/neu Gyfnod Trwydded Estynedig lle gall S4C arfer Hawliau Fideo Ar Alw S4C, p'un ai ydynt yn gysylltiedig â Darlledu llinol ai peidio. Bydd y Ffenestr Fideo Ar Alw berthnasol yn dechrau pan fydd S4C yn sicrhau bod y Rhaglen ar gael i wylwyr ei derbyn drwy Fideo Ar Alw. Gall S4C ddewis cyfuno Ffenestri Fideo Ar Alw.

Ffi Drwydded: y ffi drwydded a bennir yn yr Atodiad;

Fformat: y fformat y seiliwyd y Rhaglen arno;

Ffrwd Fyw: cyfathrebu â'r cyhoedd ar adegau a drefnwyd drwy dechnoleg ffrydio drwy'r rhyngrwyd i'w derbyn gan wylwyr ar unrhyw ddyfais sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, ddyfeisiau a thabledi ffonau symudol) heb fod angen blwch pen set neu offer datgodio arall;

Gofynion Cyfleu: gofynion Cymal 3, y ddogfen â'r teitl "Gofynion Cyfleu S4C Mawrth 2016", sydd ar gael ar y Wefan Gynhyrchu, y Gofynion Technegol, y Canllawiau Isdeitlo, y Canllawiau Ffotograffiaeth, ac unrhyw fersiynau diwygiedig o'r fath ddogfennau y'i cyhoeddir o dro i dro a holl ofynion cyfleu eraill y Drwydded;

Gofynion Technegol: y Safonau Technegol Cyfleu Rhaglenni Teledu i S4C ac unrhyw fersiwn diwygiedig o'r fath ddogfen sydd ar gael ar y Wefan Gynhyrchu ac unrhyw ofynion ar wahân a gyhoeddir gan S4C o ran teledu manylder uchel;

Gwasanaeth Ffrydio: unrhyw wasanaeth ar unrhyw Blatfform o bryd i'w gilydd ar gyfer Fideo ar Alw a/neu Ffrydio cynnwys sain neu glyweledol yn Fyw;

Gwasanaeth(au) S4C: unrhyw wasanaeth a ddarperir gan S4C neu unrhyw Gwmnïau Teulu S4C (ac, yn achos iPlayer y BBC, gan y BBC ar ran S4C) i'r cyhoedd o bryd i'w gilydd, sydd ar gael i wylwyr yn ddi-dâl wrth wylio, boed hynny mewn bodolaeth nawr neu yn y dyfodol, unrhyw sianel sydd yn cario Darllediadau Dilynol, unrhyw wasanaeth lle yr ymarferir yr Hawliau Ar-Lein neu'r Hawliau Gwefan boed y gwasanaethau hynny yn rhai llinellol neu ryngweithiol neu wedi eu trosglwyddo gan loeren digidol, teledu digidol daearol neu deledu cebl, ar-lein, oddi-ar-y we neu gan unrhyw gyflwyniad neu blatfform arall sydd, neu a fydd yn cael eu dyfeisio o hyn allan i gynnwys teledu safonol neu fanylder uwch (TMU) Ffrydio Byw a Fideo Ar Alw neu gyfuniad boed yn cael eu derbyn yn y D.U. neu beidio;

Gwefan Gynhyrchu: Gwefan Gynhyrchu S4C ar https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/

Gwybodaeth: yr ystyr a roddir i'r term yn adran 84 o'r DdRhG;

Gwybodaeth am y Rhaglen: y wybodaeth a'r dogfennau a bennir yn y Gofynion Technegol, y Canllawiau Isdeitlo a'r Gofynion Cyfleu;

Gwybodaeth Gyfrinachol: unrhyw wybodaeth yn ymwneud â busnes, cyflenwyr neu gwsmeriaid y naill barti neu'r llall a thelerau'r Drwydded ynghyd ag unrhyw wybodaeth sydd wedi'i dynodi yn wybodaeth gyfrinachol gan y naill barti neu'r llall yn ysgrifenedig neu a ddylid ei hystyried yn gyfrinachol (sut bynnag y'i trosglwyddir neu ar ba gyfrwng bynnag y'i cedwir) gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â materion, eiddo, asedion, arferion masnach, datblygiadau, cyfrinachau masnach, hawliau eiddo deallusol, medrau cyfrin y naill barti a'r llall a'r holl Ddata Personol;

Hawliau Ad-drosglwyddo Cydamserol: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif (ond yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf) i ganiatáu i wasanaethau a sianelau trydydd parti yn y Diriogaeth a thu allan i'r Diriogaeth i gynnwys Rhaglen S4C mewn gwasanaethau cebl neu systemau dosbarthu micro-don aml-dderbynnydd neu unrhyw wasanaeth arall beth bynnag fo'r dull cyfleu neu dderbyn gan y gwyliwr, lle bo'r fath wasanaethau yn Darlledu cynnwys Gwasanaethau S4C yn gydamserol;

Hawliau Addysgol ac Archifol: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i ganiatáu i lyfrgelloedd dynodedig ac archifdai (yn unol â'r Ddeddf) i baratoi a chadw copïau o Raglen S4C; ac i roi caniatâd i ysgolion, colegau, prifysgolion, sefydliadau addysgol eraill, amgueddfeydd, canolfannau treftadaeth, cymdeithasau hanesyddol a chyrff elusennol neu gyrff 'anfasnachol' eraill i gael copïau o'r Rhaglen ac i'w dangos a'u defnyddio ar ddibenion addysgiadol neu archifol y sefydliadau hyn; a'r hawl i S4C ddefnyddio Rhaglen S4C a phob rhan ohoni ym mhob cyfrwng sy'n hysbys nawr neu a ddyfeisir wedi hyn at ddibenion darparu gwasanaethau a chyfleusterau i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ac at ddibenion addysgol eraill;

Hawliau An-Theatrig: yr hawl an-ecsgliwsif i arddangos y Rhaglen a/neu awdurdodi eraill i wneud hynny gerbron cynulleidfa gan sefydliadau neu fudiadau nad ydynt yn ymwneud â'r busnes o arddangos ffilmiau i'r cyhoedd yn bennaf, gan gynnwys sefydliadau diwylliannol, cymdeithasol a chrefyddol, busnesau, cymdeithasau dinesig, ysbytai ac mewn gwyliau ffilm;

Hawliau Ar-Lein: yr Hawliau Fideo Ar Alw a'r Hawliau Ffrydio Byw. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd yr hawliau uchod yn cynnwys hefyd yr hawl i gyflawni'r holl esblygiadau technegol o'r fath ag sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i fanteisio'n llawn ar yr Hawliau Ar-Lein (er enghraifft, i gopïo, trosglwyddo, celcio, storio ac ailfformatio Rhaglen S4C), a'r hawl i dorri, golygu, ailfformatio, ailfeintio ac ail-becynnu Rhaglen S4C ag sy'n angenrheidiol efallai er mwyn ei addasu i ofynion y dechnoleg a ddefnyddir;

Hawliau Clipiau: i) yr hawliau an-ecsgliwsif canlynol ym mhob cyfrwng ac ym mhob ffordd sy'n hysbys nawr neu a ddyfeisir wedi hyn yn ystod cyfnod yr hawlfraint a heb wneud taliad pellach i'r Cynhyrchydd neu unrhyw drydydd parti oni bai y cytunir yn wahanol yn y Polisi Defnyddio Clipiau a Deunydd Crai:
i) i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Crai mewn rhaglenni newydd a gynhyrchir ar gyfer Gwasanaethau S4C ac i ymelwa ar y fath raglenni a'r holl rannau ohonynt (gan gynnwys y cyfryw Glipiau a Deunydd Crai); ac
ii) i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Crai wrth arfer yr Hawliau Hyrwyddo; ac
iii) i ddefnyddio'r Clipiau a'r Deunydd Crai ar wefannau ac wrth arfer yr Hawliau Ar-lein fel a nodir yn y Drwydded;

Hawliau Craidd: oni pennir yn wahanol yn yr Atodiad (i) yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i Ddarlledu Rhaglen S4C yn y Diriogaeth yn ddi-gyfyngiad o ran nifer y Darllediadau (yn achos Rhaglenni Plant ac Addysgol) neu 15 Darllediad (yn achos pob Rhaglen arall) yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded; a (ii) yr Hawliau Ar-Lein, , yr Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol, yr Hawliau Marsiandïaeth, yr Hawliau Clipiau, yr Hawliau Addysgol ac Archifol, yr Hawliau Recordio Oddi ar yr Awyr, Hawliau yr ERA, yr Hawliau Ad-drosglwyddo Cydamserol, yr Hawliau Ymylol, yr Hawliau Theatrig, yr Hawliau Nawdd, yr Hawliau An-Theatrig, yr Ataliad , yr Hawliau Hyrwyddo a'r Hawliau Gwefan;

Hawliau Eilaidd: mae iddo'r ystyr a nodir yng Nghod Ymarfer S4C fel y cytunwyd gyda TAC o bryd i'w gilydd.

Hawliau Fideo Ar Alw S4C: yr hawl ecsgliwsif yn ystod tair Ffenestr Fideo Ar Alw (neu, yn achos Rhaglenni Plant ac Addysgol, dim mwy na dwy Ffenestr Fideo Ar Alw y flwyddyn) i sicrhau bod Rhaglen S4C ar gael i wylwyr i'w derbyn drwy Fideo Ar Alw yn ddi-dâl wrth wylio o:

(i) wefan S4C Clic (yn www.s4c.cymru/clic), BBC iPlayer (bbc.co.uk/iplayer) neu unrhyw Wasanaethau S4C eraill neu o unrhyw wefan arall a weithredir gan S4C neu o dan drwydded ganddi;

(ii) unrhyw apiau ffôn symudol a thabledi o'r fath sy'n bodoli nawr neu yn y dyfodol sydd wedi'u brandio S4C Clic a/neu BBC iPlayer;

(iii) unrhyw adran neu ran o sianel gwe/cyfryngau cymdeithasol trydydd parti, Gwasanaeth Ffrydio neu Blatfform sydd wedi'i lleoli yn y DU, wedi'i brandio S4C a lle mae S4C yn gofalu am y cynnwys sydd ar gael ynddo neu yn ei reoli;

(iv) unrhyw sianel, Gwasanaeth Ffrydio neu Blatfform arall, yn ddarostyngedig i gydsyniad ysgrifenedig y Cynhyrchydd (na gaiff ei atal yn afresymol).

Hawliau Ffrydio Byw: yr hawl unigryw i ffrydio Rhaglen S4C yn fyw o fewn y Diriogaeth, gyda neu heb Ddarllediad cydamserol.

Hawliau Gwefan: yr hawliau yng nghymalau 5.13 i 5.18 yn gynwysedig;

Hawliau Hyrwyddo: yr hawl an-ecsgliwsif i hyrwyddo, marchnata a hysbysebu Rhaglen S4C ac unrhyw ran ohono (er enghraifft, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymeriadau), ynghyd â'r ymelwa arni gan S4C ac i'w defnyddio mewn deunydd marchnata corfforaethol ym mhob dull neu fodd arferol sy'n hysbys nawr neu a ddyfeisir yn y dyfodol, gan gynnwys:

i) trwy gyfrwng trêls neu hyrwyddiadau ar y sgrîn (a'r hawl i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Crai mewn trêls neu hyrwyddiadau o'r fath);
ii) trwy baratoi a rhyddhau crynodebau o Raglen S4C i'r wasg ynghyd ag erthyglau a deunydd arall am Raglen S4C, neu am yr unigolion sy'n cyfrannu at Raglen S4C;
iii) trwy hysbysebion radio, posteri, pamffledi, cardiau post;
iv) trwy arddangos Clipiau neu ddarnau o Raglen S4C yn gyhoeddus, e.e. yn ystod cyfarfodydd neu arddangosiadau cyhoeddus, mewn gwyliau ffilm neu deledu, ar stondin S4C mewn digwyddiadau e.e. mewn eisteddfodau neu gemau rhyngwladol. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae unrhyw ddefnydd o'r fath yn ddarostyngedig i daliad gan S4C o unrhyw freindaliadau sy'n daladwy i actorion, awduron a cherddorion yn unol â'r cytundebau cyfunol perthnasol rhwng TAC/ Equity, TAC/ WGGB a TAC/ Undeb y Cerddorion, ynghyd â chliriadau priodol ar gyfer defnyddio cerddoriaeth neu Ddeunydd Trydydd Parti arall lle nad oedd yn ofynnol i'r Cynhyrchydd, ym mhob achos, rag-glirio'r defnydd hwnnw yn y Drwydded
v) trwy ddangos Rhaglen S4C a/neu Glipiau a/neu Ddeunydd Crai trwy'r Hawliau Ar-lein.
vi) trwy arddangos Clipiau a/neu Ddeunydd Crai ar unrhyw adran, tudalen neu ran o wefan trydydd parti a/neu wefan cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'i brandio S4C a lle mae S4C yn gofalu am y cynnwys sydd ar gael ynddo, ac yn ei reoli (fel enghraifft yn unig, ac heb fod yn gyfyngedig i, Facebook, Twitter a YouTube).
vii) trwy baratoi deunyddiau neu nwyddau corfforaethol (a'r hawl i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Crai mewn unrhyw ddeunyddiau corfforaethol o'r fath);
viii) trwy gynnal perfformiadau cyntaf neu arddangosiadau theatrig o Raglen S4C;
ix) trwy enwebu Rhaglen S4C am wobrau ffilm neu deledu neu fel arall ei chyflwyno i'w harddangos neu am wobr mewn unrhyw ŵyl ffilm neu deledu;
x) trwy ymarfer yr Hawliau Marsiandïaeth;

Hawliau Marsiandïaeth: yr hawl an-ecsgliwsif i ymelwa ar yr hawliau marsiandïaeth yn Rhaglen S4C gan gynnwys cymeriadau, golygfeydd, logos a dyluniadau mewn cysylltiad â phob math o gynhyrchion gan gynnwys nwyddau sain, nwyddau clyweledol, marsiandïaeth cymeriadau, llyfrau, cylchgronau a deunydd cyhoeddi arall ond heb gynnwys yr hawl i gynhyrchu ac/neu ymelwa ar Raglen/Cyfres Ddilynol na'r Hawliau Ar-lein;

Hawliau Nawdd: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i geisio nawdd ar gyfer unrhyw ymelwa gan S4C ar Raglen S4C;

Hawliau Recordio Oddi ar yr Awyr: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i awdurdodi trydydd partïon i recordio Rhaglen S4C oddi ar yr awyr;

Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol: yr unig opsiwn yn ystod Cyfnod y Drwydded ac wedi hynny yr hawl an-ecsgliwsif i gomisiynu'r Cynhyrchydd i gynhyrchu Rhaglen/Cyfres

Ddilynol yn yr iaith Gymraeg ar delerau sydd (yn ddarostyngedig i gymal 5.20 isod) yr un fath â'r rhai a nodir yn y Drwydded.

Hawliau S4C: mewn perthynas â Rhaglen S4C, yr Hawliau Craidd fel y'u hamrywir (os o gwbl) gan yr Atodiad, yr holl hawliau eraill a roddir yn benodol i S4C dan y Drwydded a'r hawl unigryw ac ecsgliwsif i aseinio'r cyfryw hawliau;

Hawliau Theatrig: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i arddangos Rhaglen S4C yn gyhoeddus mewn unrhyw ddull neu fodd ac mewn unrhyw gyfrwng i gynulleidfa sydd wedi talu i gael mynediad i'r man lle y dangosir Rhaglen S4C;

Hawliau Ymylol: yr holl hawliau atodol sydd eu hangen ar S4C er mwyn medru cyflawni ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau statudol, neu er mwyn hwyluso'r rheiny, gan gynnwys:

i) yr hawl i gadw copi Darlledu o Raglen S4C am byth at ddibenion rheoleiddio; a'r

ii) hawl i gadw copïau o Raglen S4C mewn fformatau technegol amrywiol er mwyn galluogi S4C i baratoi gwahanol fersiynau o Raglen S4C, e.e. fersiwn wedi'i isdeitlo, fersiwn gyda iaith arwyddion, fersiwn gyda sain-ddisgrifiad ac ati, ac er mwyn hwyluso gwaith S4C.

Hawliau yr ERA: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i ganiatáu i'r Educational Recording Agency Limited i drwyddedu sefydliadau addysgol i recordio Rhaglen S4C oddi ar yr awyr ac i'w defnyddio at ddibenion addysgol yn unol â'r cynllun(iau) trwyddedu a weithredir gan ERA o bryd i'w gilydd boed yn unol ag Adran 35 o'r Ddeddf fel arall a'r hawl i gadw'r holl incwm sy'n deillio o hynny;

Incwm Gros: yr holl gyllid a gynhyrchir gan y Cynhyrchydd, ei asiantau a'i ddosbarthwyr o Ymelwa;

Ofcom: y Swyddfa Cyfathrebiadau ac unrhyw gorff sy'n ei holynu;

Pennod: pan fo'r Rhaglen yn gyfres o raglenni, pennod o'r gyfryw gyfres;

Person Cymwys: y person(au) a nodir yn yr Atodiad;

Person Dynodedig: y person(au) a bennir yn yr Atodiad a'i d/dirprwyon cymwys at ddibenion amddiffyn plant;

Personél: yr holl unigolion a gytundebir gan y Cynhyrchydd neu sy'n cyfrannu at Raglen S4C boed hynny fel personau cyflogedig neu weithwyr llawrydd;

Personél Allweddol: y personél a nodir yn yr Atodiad;

Platfform: y platfform a ddefnyddir er mwyn cael mynediad at Wasanaethau S4C, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i blatfformau teledu clyfar, systemau gweithredu ffonau symudol, blychau pen set, dyfeisiau ffrydio, perifferolion eraill a phlatfformau eraill fel sy'n bodoli nawr neu yn y dyfodol.

Polisïau Yswiriant: y polisïau yswiriant a gynhelir gan y Cynhyrchydd yn unol â'r Drwydded;

Polisi Defnyddio Clipiau a Deunydd Crai: y Polisi Defnyddio Clipiau a Deunydd Crai a gytunwyd rhwng S4C a TAC, a adolygir o bryd i'w gilydd ac sy'n cynnwys tariff ar gyfer defnyddio Clipiau a Deunydd Crai;

Polisi Rhyddhau Ataliadau: Polisi S4C ar Ryddhau Ataliadau'n Gynnar fel y cytunwyd gyda TAC o bryd i'w gilydd.

Rhaglen: unrhyw raglen neu gyfres o raglenni sy'n seiliedig ar neu'n deillio'n llwyr neu'n rhannol o frîff gwreiddiol y rhaglen fel y'i gyflwynwyd gan y Cynhyrchydd i S4C ar gyfer Rhaglen S4C gan gynnwys ond heb gyfyngiad (i) Raglen S4C; (ii) unrhyw fersiwn ieithyddol arall ohoni neu unrhyw addasiad neu fersiwn diwygiedig ohoni mewn unrhyw iaith gan gynnwys ond heb gyfyngiad unrhyw raglen neu gyfres sy'n cynnwys neu sy'n ymgorffori'r un deunydd rhaglen neu gynnwys (boed hynny yn yr un drefn neu mewn trefn neu drefniant gwahanol); a (iii) unrhyw raglen sydd wedi'i seilio ar yr un fformat â Rhaglen S4C a/neu sydd wedi deillio fel arall o Raglen S4C a/neu'i chynhyrchu;

Rhaglen/Cyfres Ddilynol: rhaglen/cyfres ddilynol, ail-wneuthuriad o'r Rhaglen neu raglen/cyfres sy'n rhagflaenu'r Rhaglen neu raglen neu gyfres sydd wedi'i seilio ar neu sy'n cynnwys elfennau o'r Rhaglen neu'r Fformat a waeth os yw'r cyfryw raglen/cyfres ddilynol yn portreadu digwyddiadau sydd yn digwydd cyn, yn gydamserol â neu'n dilyn y digwyddiadau a bortreadir yn y Rhaglen o ran rhediad amser;

Rhaglen S4C: fersiwn iaith Gymraeg y Rhaglen a ddisgrifir yn yr Atodiad ac unrhyw neu'r holl bytiau o a/neu recordiadau sain a/neu raglenni eraill a ymgorfforir yn y gyfryw raglen a'r holl neu unrhyw isdeitlau, deunydd sain-ddisgrifio neu arwyddo neu elfennau rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r fath raglen ynghyd â'r holl Ddeunydd Cyfleu;

Rhaglenni Plant ac Addysgol: rhaglenni plant ac addysgol fel y'u diffinnir gan Ofcom o bryd i'w gilydd.

Rhandaliadau: y rhandaliadau ar gyfer talu'r Ffi Drwydded a bennir yn y Dylif Ariannol;

RhDDC: Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol EU 2016/679;

Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd: Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd 2004, ynghyd â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, fel y'i diwygiwyd ac mewn grym o bryd i'w gilydd;

S4C Clic: Gwasanaeth Fideo Ar Alw ar-lein S4C sydd wedi'i frandio;

Tablau Ffioedd: y tablau ffioedd sydd wedi'u hatodi i'r Telerau Masnach ac wedi'u rhifo 1-5 yn gynhwysol;

TAC: Teledwyr Annibynnol Cymru neu unrhyw gorff olynol;

Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau: y taliadau ail-ddangos, gweddill-daliadau a thaliadau defnyddio a breindaliadau (gan gynnwys unrhyw rai sy'n berthnasol i Ddeunydd Trydydd-bartïon) sydd wedi'u hysbysu i S4C wrth Gyfleu ac sy'n daladwy mewn perthynas ag ymelwa ar Hawliau S4C sydd naill ai yn unol â'r Cytundebau Perthnasau Diwydiannol neu fel arall fydd wedi'u pennu yn yr Atodiad. Ni fydd unrhyw

Daliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau yn daladwy gan S4C am unrhyw ddefnydd sydd yn ôl yr Atodiad wedi ei "brynu allan";

Telerau Cyffredinol: y Pedwerydd Argraffiad hwn o Delerau Cyffredinol S4C fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd;

Telerau Masnach: telerau masnach S4C fel y'u cyhoeddir ar y Wefan Gynhyrchu o bryd i'w gilydd;

Tiriogaeth: y Deyrnas Gyfunol ar yr amod bod y Cynhyrchydd yn cydnabod:

(i) o ganlyniad i'r ffaith anorfod na ellir cyfyngu signalau lloeren nad sydd wedi eu hamgryptio i ffiniau cenedlaethol, a natur byd-eang y rhyngrwyd a dulliau cyfathrebu eraill, gall Gwasanaethau S4C gael eu derbyn ledled dalgylch lloeren Astra 2F neu'r cyfryw loeren(nau) eraill a ddefnyddir i drosglwyddo Gwasanaethau S4C o bryd i'w gilydd ac yn achos yr Hawliau Ar-Lein, bydd y Diriogaeth (ac eithrio lle y nodir yn benodol fel arall) yn fyd-eang; a

(ii) bod Hawliau S4C yn cynnwys yr Hawliau Ad-drosglwyddo Cydamserol y tu allan i'r Diriogaeth;

ac ni ddehonglir y naill neu'r llall o'r uchod fel tor-amod o'r Drwydded gan S4C;

Trwydded: y Drwydded yn sgil hon y comisiynwyd Rhaglen S4C gan S4C oddi wrth y Cynhyrchydd a'r Atodiad a'r dogfennau a pholisïau a ymgorfforir ynddi trwy gyfeiriadaeth gan gynnwys ond heb gyfyngiad y Telerau Cyffredinol hyn;

Twyll: unrhyw drosedd o dan gyfraith sy'n creu troseddau mewn perthynas a gweithredoedd twyllodrus neu o dan gyfraith gwlad mewn perthynas a gweithredoedd twyllodrus yn ymwneud â'r Drwydded neu dwyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo, S4C; a

Ymelwa: yn ddarostyngedig bob amser i Hawliau S4C a'r Ataliadau, unrhyw werthiant, hurio, dosbarthiad, perfformiad, defnydd neu ymelwa gan y Cynhyrchydd, ei olynwyr, ei aseineion a/neu ei drwyddedeion ar y Rhaglen ymhob iaith ac mewn unrhyw a phob gwlad a thiriogaeth yn y byd mewn unrhyw gyfrwng drwy unrhyw ddull a modd boed yn analog neu'n ddigidol, yn llinol neu'n rhyngweithiol, ar-lein neu all-lein, yn weledol, mewn sain neu'n glyweledol neu fel arall a boed yn hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir yn y dyfodol AC EITHRIO yn benodol unrhyw ymarfer gan S4C neu unrhyw un o'i Chwmnïau Teulu o'r holl neu unrhyw un o Hawliau S4C, a dehonglir y ferf 'Ymelwa' a'r term 'Ymelwa' yn unol â'r uchod.

1.2 Dehonglir unrhyw gyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol, i gynnwys cyfeiriad at y statud hwnnw neu'r ddarpariaeth statudol honno fel y'i amrywir, newidir, estynnir neu'i ail-weithredir o dro i dro boed cyn neu wedi dyddiad y Drwydded, ac at bob offeryn statudol, gorchymyn a rheoliadau sy'n amrywio, newid a/neu'n ymestyn y fath statud neu ddarpariaeth statudol.

1.3 Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd y geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir a bydd geiriau sy'n dynodi'r naill ryw yn cynnwys y llall hefyd a geiriau sy'n dynodi personau'n cynnwys corfforaethau, cymdeithasau anghorfforedig a phartneriaethau.

1.4 Golyga'r gair "hawlfraint" yr holl hawlfraint, yr hawl bâs data a'r hawliau dylunio sy'n bodoli dan ddeddfau'r Deyrnas Gyfunol, a'r holl hawliau tebyg sy'n bodoli dan ddeddfau pob deddfwriaeth ledled y byd.

1.5 Pwrpas penawdau Cymalau'r Drwydded yw rhoi arweiniad yn unig, ac ni fwriedir iddynt gyfyngu ar eiriad unrhyw Gymal.

1.6 Bydd y fersiynau o'r holl ddogfennau, Canllawiau a Pholisïau sydd mewn grym ar ddyddiad y Drwydded ac y cyfeirir atynt yn y Drwydded fel rhai sydd wedi'u hymgorffori yn y Drwydded trwy gyfeiriadaeth yn dod i rym fel rhan o'r Drwydded fel pe baent wedi'u hatgynhyrchu ynddo'n llawn. Os bydd unrhyw Ganllawiau neu Bolisïau yn cael eu diwygio wedi dyddiad y Drwydded, y fersiwn y bernir ei fod wedi ymgorffori yn y Drwydded fydd y fersiwn a oedd yn bodoli ar ddyddiad y Drwydded. Os cyfyd unrhyw wrthdaro rhwng y dogfennau, y Canllawiau a'r Polisïau sydd wedi'u hymgorffori yn y Drwydded ar y naill law a'r Telerau Cyffredinol a'r Atodiad ar y llall, yna'r Telerau Cyffredinol a'r Atodiad fydd yn rhagori. Os cyfyd unrhyw wrthdaro rhwng y Telerau Cyffredinol a'r Atodiad, yna'r Atodiad fydd yn rhagori.

1.7 Pan fo'r Cynhyrchydd yn fwy nag un endid cyfreithiol, yna bydd pob un o'r endidau hynny yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyflawni a chydymffurfio â goblygiadau, gwarantu ac ymrwymiadau'r Cynhyrchydd dan y Drwydded.

1.8 Mae "gan gynnwys" yn golygu "gan gynnwys ond heb gyfyngiad".

1.9 Mae unrhyw gyfeiriad at 'ddiwrnod/dyddiau' yn golygu diwrnod/dyddiau clir (h.y. dyddiau cyflawn).

<u>Cymal 2 – Cynhyrchu Rhaglen S4C</u>

2.1 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu yn ymrwymo ac yn cytuno i wneud Rhaglen S4C yn union yn unol â'r manylebion a bennir yn yr Atodiad ac i Gyfleu Rhaglen S4C i S4C ar neu cyn y Dyddiad Cyfleu. *Materion Golygyddol*

2.2 Bydd y Cynhyrchydd yn gyfrifol am gynhyrchu'r Rhaglen o ddydd i ddydd ac am sicrhau bod Rhaglen S4C yn cydymffurfio â'r Brîff Golygyddol a Busnes a gyda gofynion eraill y Drwydded. Bydd gan y Comisiynydd a chynrychiolwyr eraill S4C yr hawl i gysylltu â'r Cynhyrchydd yn ystod y cyfnod cynhyrchu ac i gael adroddiadau rheolaidd ar sut mae'r gwaith o gynhyrchu'r Rhaglen yn dod yn ei flaen. Gwneir yr holl benderfyniadau o sylwedd gan S4C a'r Cynhyrchydd ar y cyd, a bydd S4C yn rhoi ystyriaeth deg i farn y Cynhyrchydd. Yn y pen draw, fodd bynnag, os oes unrhyw anghydfod, S4C fydd â'r gair olaf o ran Rhaglen S4C.

2.3 Mae'r Brîff Golygyddol a Busnes yn rhestru'r elfennau allweddol y mae gan y Cyfarwyddwr Cynnwys a'r Rheolwr Gweithrediadau Cynnwys yr hawl i'w cymeradwyo ac mae'n nodi'r amserlen er mwyn cyfleu neu hysbysu'r elfennau allweddol i'r Comisiynydd a'u cymeradwyo gan y Comisiynydd a'r Rheolwr Gweithrediadau Cynnwys.

2.4 Bydd angen cymeradwyaeth ysgrifenedig y Comisiynydd ymlaen llaw ar gyfer unrhyw newidiadau arfaethedig materol i'r elfennau allweddol. Fodd bynnag, os nad yw S4C wedi rhoi neu wrthod caniatâd o fewn deg diwrnod gwaith i'r Cynhyrchydd roi gwybod am newid arfaethedig materol nad yw'n a) cynyddu costau S4C a/neu b) oedi wrth gyflawni, bydd gan y Cynhyrchydd hawl i fynd ymlaen i wneud y newid hwnnw.

2.5 Bydd y Cynhyrchydd yn gwneud unrhyw newidiadau y bydd y Comisiynydd yn gofyn iddo eu gwneud er mwyn sicrhau bod Rhaglen S4C yn cydymffurfio â'r:

2.5.1 Brîff Golygyddol a Busnes;

2.5.2 telerau'r Drwydded; a

2.5.3 y Canllawiau a'r Polisïau;

Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud o fewn y Ffi Drwydded oni bai y bydd y Cyfarwyddwr Cynnwys a/neu'r Rheolwr Gweithrediadau Cynnwys yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

2.6 Bydd y Brîff Golygyddol a Busnes yn nodi sawl egwyl sy'n debygol o fod yn angenrheidiol ar gyfer hysbysebion ond mae S4C yn cadw'r hawl i olygu'r deunydd wedi ei gyfleu er mwyn newid lleoliad a/neu nifer y toriadau hysbysebu.

2.7 Yn ystod y cyfnod ôl-gynhyrchu, gall y Comisiynydd ofyn am gael gweld rhestr o'r cydnabyddiaethau y bwriedir eu cynnwys yn Rhaglen S4C. Os felly, dylid ceisio cymeradwyaeth y Comisiynydd cyn cynhyrchu'r cydnabyddiaethau. Rhaid i'r cydnabyddiaethau gydymffurfio â Chanllawiau Cydymffurfiaeth S4C. Os bydd Rhaglen S4C yn cynnwys cydnabyddiaethau annerbyniol, gall S4C wrthod Rhaglen S4C neu hepgor a/neu newid y cydnabyddiaethau heb gysylltu â'r Cynhyrchydd.

2.8 Mae S4C yn cadw'r hawl i wneud newidiadau pellach am resymau golygyddol llwyr S4C. Nid yw S4C yn gwarantu y bydd yn darlledu Rhaglen S4C.

2.9 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu, yn ymrwymo ac yn cytuno i gynhyrchu a Chyfleu Rhaglen S4C yn unol â phob cyfraith berthnasol, ynghyd â'r Canllawiau a Pholisïau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i God Darlledu Ofcom a Chanllawiau S4C ar Osod Cynnyrch ac unrhyw ddiweddariad i'r ddogfen honno o dro i dro sydd ar gael ar y Wefan Gynhyrchu. Bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau cymeradwyaeth S4C ar gyfer unrhyw gydnabyddiaeth neu fudd arall o unrhyw fath y bydd unrhyw noddwr rhaglen neu drefnydd digwyddiad yn gofyn amdano, ymlaen llaw. Yn arbennig, ni chaniateir gosod cynnyrch heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan S4C (fel y'u diffinnir yng Nghanllawiau S4C ar Osod Cynnyrch). *Cydymffurfiaeth*

2.9A Rhaid i'r Cynhyrchydd sicrhau bod unrhyw ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn cysylltiad â Rhaglen S4C yn gyfrifol, yn briodol ac yn berthnasol ac yn unol â Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol S4C a'r ddogfen "Canllawiau Cyfryngau

Cymdeithasol" sydd ar gael ar Wefan Gynhyrchu S4C. Ni fydd y Cynhyrchydd yn gosod deunydd o Raglen S4C ar wefannau cyfryngau cymdeithasol y Cynhyrchydd (gan gynnwys Facebook, Twitter a/neu YouTube) heb ganiatâd y Comisiynydd ymlaen llaw a heb iddo gael ei glirio'n llawn at ddefnydd o'r fath.

2.9B Ni fydd y Cynhyrchydd yn agor cyfrif cyfryngau cymdeithasol newydd mewn perthynas â Rhaglen S4C, nac yn creu tudalen neu grŵp dynodedig yn ymwneud â Rhaglen S4C o fewn cyfrif sy'n bodoli eisoes, heb ganiatâd y Comisiynydd a Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C ymlaen llaw. Bydd unrhyw gydsyniad o'r fath yn amodol ar roi mynediad llawn ac amserol i S4C i'r cyfrif(au)/tudalen(au).

2.9C Bydd y Cynhyrchydd yn defnyddio ymdrechion rhesymol i sicrhau bod aelodau'r cast sy'n dod o fewn y diffiniad o Bersonél Allweddol yn defnyddio unrhyw gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol sydd ganddynt i hyrwyddo Rhaglen S4C i'r graddau y bydd S4C yn rhesymol ofyn hynny.

Rhybuddion Hawlfraint Cydnabyddiaethau

2.10 Ni fydd y Cynhyrchydd yn ymgorffori'i enw na'i logo ar ddechrau Rhaglen S4C nac unrhyw gyfeiriad at wefan ar ddechrau neu ddiwedd Rhaglen S4C heb ganiatâd ysgrifenedig S4C. Bydd gan S4C yr hawl i ofyn i'r Cynhyrchydd i arddangos cyfeiriad unrhyw wefan sy'n berthnasol i Raglen S4C neu i orosod cydnabyddiaeth o'r fath ar ddiwedd Rhaglen S4C.

2.11 Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i gydymffurfio â Chanllawiau Cydnabyddiaethau 1 Mai 2015 ac unrhyw amrywiad neu ddiweddariad i'r ddogfen hon sydd ar gael ar y Wefan Gynhyrchu o bryd i'w gilydd. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, cydnabyddir S4C fel a ganlyn:- "Cynhyrchiad [cynhyrchydd] ar gyfer S4C". Ceidw S4C yr hawl i orosod ei chydnabyddiaeth gyflwyno a/neu logo ar ddechrau Rhaglen S4C. Ceidw S4C yr hawl i symud unrhyw a phob cydnabyddiaeth neu i olygu'r cydnabyddiaethau neu i gynhyrchu ei chydnabyddiaethau ei hun. Os bydd angen newid o'r fath o ganlyniad i fethiant gan y Cynhyrchydd i gydymffurfio â Chanllawiau Cydnabyddiaethau S4C, bydd gan S4C yr hawl i fynnu bod y Cynhyrchydd yn ad-dalu cost newidiadau o'r fath (a bydd y Cynhyrchydd yn gwneud hynny'n ddi-oed) neu ar y llaw arall i dynnu'r fath gostau o unrhyw arian arall sy'n ddyledus gan S4C i'r Cynhyrchydd dan y Drwydded neu unrhyw gytundeb arall.

2.12 Mae S4C yn cadarnhau ac yn cytuno y bydd y Cynhyrchydd yn cael y gydnabyddiaeth a nodir uchod ar bob Darllediad o Raglen S4C gan S4C. Bydd rhwymedi'r Cynhyrchydd a thrydydd partïon sy'n deillio o achos a brofir o dorri ar unrhyw rwymedigaethau cytundebol o dan y Drwydded gan S4C neu ei thrwyddedeion mewn perthynas â chydnabyddiaethau, yn gyfyngedig i iawndal ac ni fydd yn ymestyn i waharddeb llys.

Hyrwyddo a Marchnata

2.13 Gall y Cynhyrchydd hyrwyddo'r Rhaglen y tu allan i'r DU. Gall y Cynhyrchydd hyrwyddo'r rhaglen yn y DU ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud ar y cyd ag S4C a gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig S4C, y fath gymeradwyaeth i gael ei roi mewn modd amserol na fydd yn cael effaith andwyol ar y ffenestr hyrwyddo. Bydd y Cynhyrchydd yn cydweithredu ag S4C gan gynorthwyo gyda'r holl ymgyrchoedd hyrwyddo a hysbysebu a gynhelir gan S4C.

2.14 Bydd y Cynhyrchydd yn cysylltu ag S4C i drafod cyhoeddusrwydd ar gyfer Rhaglen S4C a natur a graddau'r ymgyrch hyrwyddo (os gwbl) cyn gynted ag y bo modd ar ôl comisiynu Rhaglen S4C.

2.15 Bydd S4C yn rhoi cydnabyddiaeth i'r Cynhyrchydd mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo neu farchnata a gyhoeddir gan neu ar ran S4C o ran Rhaglen S4C cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol yn rhesymol (e.e. ar unrhyw wefan sy'n atodol i'r rhaglen, ar wefan gorfforaethol S4C ac mewn unrhyw ddatganiadau i'r wasg ond nid lle y mae cyfyngiadau maint/amser/dylunio yn ei wneud yn anymarferol).

2.16 Bydd gan S4C yr hawl an-ecsgliwsif i hyrwyddo ailddarllediadau o raglenni a Chyfresi sy'n Dychwelyd trwy gyfrwng clipiau estynedig o unrhyw gyfres flaenorol a/neu drwy arddangos pennod olaf y gyfres flaenorol yn ei chyfanrwydd (os bydd dan drwydded i S4C o hyd) i'w chyfleu i'r cyhoedd ar unrhyw Wasanaeth S4C gan gynnwys drwy'r rhyngrwyd neu unrhyw dechnoleg pwynt i aml-bwynt am gyfnod o saith (7) diwrnod cyn dangosiad arfaethedig y rhaglen a ailddarlledir neu'r Gyfres sy'n Dychwelyd ar y teledu. Ni fydd unrhyw ffi yn daladwy i'r Cynhyrchydd ond bydd S4C yn gyfrifol am unrhyw daliadau clirio sy'n ddyledus. Os bydd fersiwn masnachol o'r Rhaglen ar werth, ystyrir pa mor briodol fyddai i ymarfer yr hawl hon.

2.17 Rhaid cyfleu'r deunydd canlynol i S4C o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad darlledu a fwriedir neu ar y Dyddiad Cyfleu cytundebol ar gyfer tâp Rhaglen S4C os yw hynny'n gynt:

2.17.1 crynodeb yn y Gymraeg ac un yn y Saesneg (oddeutu 100 gair yr un);

2.17.2 rhestriad yn y Gymraeg ac un yn y Saesneg (oddeutu 50 gair yr un) a'r cydnabyddiaethau perthnasol; ac

2.17.3 unrhyw ddeunydd ffotograffig y mae S4C yn gofyn amdano ac yn talu amdano.

2.18 Ar gais S4C, bydd y Cynhyrchydd yn cyflenwi deunydd rhesymol i S4C ar gyfer hyrwyddiadau ar y sgrîn yn ddi-oed (o ystyried y dyddiad darlledu cyntaf a fwriedir ar gyfer Rhaglen S4C). Pan fydd y Cynhyrchydd yn ffilmio neu'n recordio deunydd hyrwyddo o'r fath yn ystod cyfnod cynhyrchu y Rhaglen (pan fo'r personél priodol ar gael), disgwylir i'r Cynhyrchydd ysgwyddo'r gost. Fel arall, bydd S4C yn talu'r costau rhesymol o ddarparu deunydd o'r fath, ac eithrio pan fo'r cais yn angenrheidiol o ganlyniad i fethiant gan y Cynhyrchydd i gwrdd â'r Dyddiad Cyfleu cytundebol.

2.19 Ym mhob achos, bydd S4C yn gyfrifol am baratoi neu oruchwylio'r gwaith o baratoi unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar y sgrîn a thrêls ar gyfer Darllediadau ar S4C (er y gall S4C ofyn i'r Cynhyrchydd ddarparu deunydd neu gyflawni'r gwaith cynhyrchu ar ei rhan).

2.20 Ni ddylai'r Cynhyrchydd gomisiynu unrhyw waith celf/ffotograffau neu unrhyw ddeunydd hyrwyddo neu farchnata arall ar ran S4C neu ar gost S4C, heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig S4C ymlaen llaw ar gyfer pob eitem o wariant.

2.20A Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod ac yn cytuno bod sicrhau detholiad o ffotograffau o ansawdd uchel o Raglen S4C yn hanfodol i S4C. Er enghraifft, ond heb gyfyngiad, mae angen ffotograffau o'r fath i'w defnyddio fel mân-luniau ar Ganllawiau Rhaglenni Electronig a phyrth Fideo Ar Alw, at ddibenion hyrwyddo yn y wasg ac ar blatfformau digidol, hysbysebu, cyhoeddi adroddiad blynyddol, a chyhoeddi coffrau.

2.21 Yn ddarostyngedig i gytuno ar amser a dyddiad cyfleus â'r Cynhyrchydd, bydd gan S4C yr hawl i drefnu bod ffotograffydd (a enwebir ac a delir amdano gan S4C ac sy'n gweithio i frîff a bennir gan S4C) yn bresennol i gymryd lluniau at ddibenion hyrwyddo a chyhoeddusrwydd a lle bo'n berthnasol i saethu deunydd hyrwyddo ar gyfer rhagluniau ar-y-sgrîn.

2.22 Bydd y Cynhyrchydd yn defnyddio'i holl ymdrechion rhesymol i sicrhau bod y Personél Allweddol ar gael ar unrhyw adeg yn ystod yr amserlen gynhyrchu a, gan roi ystyriaeth briodol i ymrwymiadau proffesiynol eraill, y pythefnos cyn Darlledu'r Rhaglen gyntaf (neu, yn achos cyfres, y pythefnos cyn Darlledu'r Bennod gyntaf) ar gyfer tynnu ffotograffau a chyfweliadau at ddibenion cyhoeddusrwydd. Bydd S4C yn hysbysu'r Cynhyrchydd mewn da bryd yn ystod yr amserlen gynhyrchu er mwyn galluogi'r Cynhyrchydd i gytuno ar yr ymrwymiad(au) priodol gyda'r Personél Allweddol.

Plant a Phobl Fregus

2.23 Lle bo trefniadau ar gyfer cynhyrchu Rhaglen S4C yn cynnwys plant neu oedolion bregus boed fel cyfranwyr, aelodau o'r gynulleidfa neu fel arall, bydd y Cynhyrchydd yn cydymffurfio â Pholisi S4C ar Amddiffyn Plant sydd mewn grym ar ddyddiad cynhyrchu'r Rhaglen ac sydd ar gael ar y Wefan Gynhyrchu, a'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol o bryd i'w gilydd sy'n ofynnol er mwyn sicrhau eu lles plant a phobol fregus.

2.24 Mae rheolau llym yn bodoli mewn perthynas â pharatoi adroddiadau am achosion llys sy'n cynnwys plant. Ym mhob achos, dylai'r Cynhyrchydd gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau neu orchmynion a roddir gan lys sy'n gwahardd rhyddhau unrhyw fanylion am unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan mewn unrhyw achos llys mewn unrhyw ffordd, boed hynny dan y Deddfau Plant a Phobl Ifanc, neu fel arall.

2.25 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu y bydd y Person Dynodedig ar gael ar bob adeg yn ystod cyfnodau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu Rhaglen S4C er mwyn (a bydd yn) asesu ac yn cynghori ar y risgiau i les plant neu oedolion bregus sy'n ymwneud â chyn-gynhyrchu, cynhyrchu neu ôl-gynhyrchu Rhaglen S4C a bydd y Person Dynodedig wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelwch plant gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) i'r fath lefel ag a gymeradwyir gan S4C.

Iechyd a Diogelwch

2.26 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau dan y Drwydded, mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu y bydd yn cydymffurfio ac y bydd yn sicrhau y bydd yr holl Bersonél yn cydymffurfio â'r holl reolau, rheoliadau, deddfwriaeth ac arferion gorau iechyd a diogelwch perthnasol a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd, gan

gynnwys Canllawiau Iechyd a Diogelwch S4C fel y'u cyhoeddwyd ar ei Wefan Gynhyrchu o bryd i'w gilydd.

2.27 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu bod ganddo weithdrefnau a pholisïau iechyd a diogelwch cyfreithlon a phriodol ar waith, ei fod wedi rhoi datgeliad llawn o'r rhain i S4C, a bod y wybodaeth a ddatgelwyd felly yn gywir ac yn gyflawn er boddhad S4C. Os oes unrhyw newid i wybodaeth o'r fath neu i sefyllfa'r Cynhyrchydd mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, mae'r Cynhyrchydd yn cytuno i hysbysu S4C yn ysgrifenedig ar unwaith.

2.28 Wedi'i ddileu.

2.29 Wedi'i ddileu.

2.30 Mae'r Cynhyrchydd yn gyfrifol am ddiogelwch pawb sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad. Mae'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yn gosod y cyfrifoldeb hwn ar y Cynhyrchydd. Nid yw polisi S4C yn disodli'r cyfrifoldebau statudol hyn.

2.30A Pan fydd y Cynhyrchydd yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan yn Rhaglen S4C neu fel arall yn cysylltu ag aelodau o'r cyhoedd mewn cysylltiad â Rhaglen S4C, bydd y Cynhyrchydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog (yn Gymraeg ac yn Saesneg) neu yn Gymraeg yn unig, fel y bo'n briodol.

Gwarchod Data

2.31 Cyn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i S4C, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod ganddo sail gyfreithlon briodol ar gyfer y trosglwyddiad hwnnw ac mae wedi sicrhau sail gyfreithlon briodol i alluogi S4C i brosesu'r Data Personol wrth arfer Hawliau S4C. Lle y bo'n briodol, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau contract cyfrannwr wedi'i lofnodi gan bob cyfrannwr (ar ffurf y cytunwyd arni rhwng y partïon) yn nodi mai'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol nad yw'n ddata personol categori arbennig fydd cyflawni'r contract. Bydd yr holl Ddata Personol a gyflenwir i S4C yn cael ei brosesu yn unol â pholisi diogelu data S4C a'r hysbysiad preifatrwydd perthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

2.31A Heb amharu ar effaith cyffredinolrwydd paragraff 2.31 uchod, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod pob contract gyda chyfranwyr i Raglen S4C yn cynnwys y bydd S4C yn brosesydd mewn perthynas â Data Personol y cyfrannwr perthnasol at ddibenion darlledu Rhaglen S4C ac arfer Hawliau S4C, a bydd yn cyfarwyddo'r cyfranwyr at ddolen i Hysbysiad Preifatrwydd S4C (sydd ar gael ar y Wefan Gynhyrchu).

2.31B Mae'r ddau barti yn cytuno i gydymffurfio â holl ofynion perthnasol y Cyfreithiau Diogelu Data. Mae'r paragraff hwn 2.31B yn ychwanegol at, ac nid yw'n rhyddhau, yn dileu neu'n disodli rhwymedigaethau parti o dan y Cyfreithiau Diogelu Data.

2.31C Heb amharu ar effaith cyffredinolrwydd paragraff 2.31B uchod, bydd pob parti, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir mewn cysylltiad â pherfformiad y Cynhyrchydd o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn:

(i) cynorthwyo'r parti arall, yn rhad ac am ddim, i ymateb i unrhyw gais gan destun data ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau o dan y Cyfreithiau Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch, torri hysbysiadau, asesiadau effaith ac ymgynghoriadau gydag awdurdodau goruchwylio neu reoleiddwyr;

(ii) cadw cofnodion, polisïau a gweithdrefnau digonol i ddangos ei fod yn cydymffurfio â Chyfreithiau Diogelu Data, a sicrhau bod cofnodion, polisïau a gweithdrefnau o'r fath ar gael i'r parti arall ar gais rhesymol; a

(iii) penodi swyddog diogelu data os yw'n ofynnol iddo wneud hynny o dan y Cyfreithiau Diogelu Data, neu, os nad yw'n ofynnol iddo wneud hynny, i benodi unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelu data a hysbysu'r parti arall am enw'r unigolyn hwnnw.

2.31D Heb amharu ar effaith cyffredinolrwydd paragraff 2.31B, mae'r partïon yn cytuno mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir gan y parti hwnnw fel prosesydd yn unig ar ran y parti arall fel rheolwr o dan y Cytundeb hwn, y bydd y prosesydd yn:

(i) prosesu'r Data Personol ar gyfarwyddiadau ysgrifenedig y rheolwr yn unig ac, ar gyfarwyddyd ysgrifenedig y rheolwr, dileu neu ddychwelyd Data Personol o'r fath a chopïau ohonynt i'r rheolwr wrth derfynu'r Cytundeb hwn (oni bai eu bod wedi'u hatal rhag gwneud hynny yn unol ag unrhyw gyfreithiau perthnasol);

(ii) caniatáu ar gyfer archwiliadau gan y rheolwr neu ei archwilydd dynodedig o weithdrefnau a phrosesau diogelu data'r prosesydd mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn;

(iii) sicrhau bod ganddo fesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i ddiogelu rhag prosesu Data Personol heb awdurdod neu'n anghyfreithlon ac yn erbyn colli neu ddinistrio Data Personol yn ddamweiniol, neu ddifrod iddo, sy'n briodol i'r niwed a allai ddeillio o brosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon neu golled, dinistr neu ddifrod damweiniol a natur y data sydd i'w ddiogelu, gan roi sylw i gyflwr datblygiad technolegol a'r gost o weithredu unrhyw fesurau (gall y mesurau hynny gynnwys, lle y bo'n briodol, pseudonymeiddio ac amgryptio Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch ei systemau a'i wasanaethau, gan sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad at Ddata Personol mewn modd amserol ar ôl digwyddiad, ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol a fabwysiadwyd ganddo yn rheolaidd);

(iv) sicrhau bod rhaid i’r holl bersonél sydd â mynediad i ac/neu sy’n prosesu Data Personol wneud hynny yn gyfrinachol, a sicrhau bod y cyfryw bersonél yn ddibynadwy ac yn deall rhwymedigaethau cytundebol y prosesydd i'r llall;

(v) peidio â throsglwyddo unrhyw Ddata Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd na phenodi trydydd parti i brosesu'r Data Personol oni bai bod caniatâd ysgrifenedig y llall wedi'i gael ymlaen llaw; a

(vi) hysbysu'r parti arall heb oedi diangen a heb fod yn hwyrach nag o fewn 24 awr o ddod yn ymwybodol o doriad Data Personol. Dylid hysbysu S4C drwy'r cyfeiriad e-bost canlynol: data@s4c.cymru

2.31E Mae cyfreithiau a chanllawiau sy'n ymwneud â Data Personol yn datblygu'n rheolaidd a gall S4C, ar unrhyw adeg ar ddim llai na 30 diwrnod o rybudd, ddiwygio'r paragraffau 1-7 hyn er mwyn adlewyrchu unrhyw newid mewn arferion da neu ganllawiau drwy eu disodli ag unrhyw gymalau safonol rheolwr i brosesydd perthnasol neu delerau tebyg sy'n rhan o gynllun ardystio perthnasol (a fydd yn gymwys pan fydd atodiad i'r Cytundeb hwn yn cymryd ei le).

Yswiriant

2.32 Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo cyn dechrau cynhyrchu'r Rhaglen i drafod gydag S4C ac i gychwyn polisïau yswiriant addas gyda chwmnïau neu dan-sgrifennwyr yswiriant dibynadwy sydd â phrofiad o'r diwydiant adloniant a'r cyfryngau rhag yr holl beryglon yr yswirir yn eu herbyn fel rheol yn unol ag arferion ac ymarfer da y diwydiant ac amgylchiadau penodol y Rhaglen. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, bydd y cyfryw yswiriant yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

(i) yswiriant trydydd-barti/atebolrwydd cyhoeddus;

(ii) indemniad yn erbyn unrhyw ddifrod i neu golli'r stoc negyddol, y negydd, y tapiau fideo a'r trac sain a'r eiddo arall i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â chynhyrchu'r Rhaglen;

(iii) Indemniad yn erbyn y peryglon o ddamwain i neu salwch neu farwolaeth y cyfarwyddwr, cynhyrchwyr, uwch-gynhyrchwyr, y cast a chyfranwyr ac unrhyw berson arall a bennir gan S4C;

(iv) Yswiriant atebolrwydd cyflogwr trwy gydol cyfnod cynhyrchu'r Rhaglen;

(v) Y cyfryw yswiriannau eraill ag y gall S4C neu'r gyfraith eu mynnu yn rhesymol.

2.33 Mae'r Cynhyrchydd yn cytuno mai cyfrifoldeb y Cynhyrchydd yw cydymffurfio o ddydd i ddydd â thelerau, amodau a chyfyngiadau'r Polisïau Yswiriant trwy gydol y cyfnodau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu a nes y Cyflëir Rhaglen S4C. Yn benodol, mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i hysbysu S4C os gwrthodir mantell yswiriant i unrhyw fater neu elfen neu os tynnir y fantell yswiriant ar gyfer unrhyw un ohonynt yn ôl neu os bydd unrhyw waharddiadau, eithriadau neu ddidyniadau mewn perthynas ag unrhyw risgiau yswiriant.

2.34 Ni fydd y Cynhyrchydd yn gwneud dim nac yn caniatáu i ddim cael ei wneud a fydd yn peri y gall unrhyw bolisi o'r fath gael ei ddiddymu, neu fod yn ddi-rym neu fod yn ddirymadwy, boed hynny'n rhannol neu'n gyfan gwbl.

2.35 Defnyddir unrhyw arian sy'n daladwy dan unrhyw bolisi yswiriant perthnasol i barhau gyda chynhyrchu Rhaglen S4C oni bai y rhoddwyd y gorau i

gynhyrchu Rhaglen S4C, pan ddefnyddir yr arian yswiriant i ad-dalu'r arian a dalwyd gan S4C dan y Drwydded.

2.36 Bydd y Cynhyrchydd yn cynnal y Polisïau Yswiriant mewn grym ac effaith lawn trwy gydol y cyfnodau cyn-gynhyrchu a chynhyrchu a nes y Cyfleu a bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod S4C yn cael ei nodi fel sawl i'w dalu ar achlysur colled ac fel person yswiriedig ychwanegol ar bob un o'r Polisïau Yswiriant.

2.37 Bydd y Cynhyrchydd yn talu pob premiwm mewn perthynas â'r Polisïau Yswiriant.

2.38 Bydd y Cynhyrchydd yn ddi-oed wedi derbyn cais gan S4C yn darparu gwybodaeth lawn a'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r holl Bolisïau Yswiriant a'r holl amrywiadau, ychwanegiadau ac estyniadau i'r holl Bolisïau Yswiriant i S4C.

2.39 Bydd y Cynhyrchydd yn cynghori S4C yn syth yn ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiad a all arwain at unrhyw hawliad o dan unrhyw un o'r Polisïau Yswiriant a all rwystro'r Cynhyrchydd rhag cydymffurfio â'i ddyletswyddau cytundebol o dan y Drwydded. Bydd y Cynhyrchydd yn darparu i S4C gopïau o'r holl ohebiaeth a dogfennau sy'n berthnasol i unrhyw fater o'r fath yn syth wedi eu derbyn. Ni fydd y Cynhyrchydd yn gwneud neu'n bwrw ymlaen â hawliad yswiriant nac yn cyfaddawdu neu'n setlo hawliad yswiriant o dan y fath amgylchiadau heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw ac ni fydd S4C yn oedi neu'n gwrthod ei chaniatâd yn afresymol, a bydd y Cynhyrchydd yn dilyn cyfarwyddiadau rhesymol S4C yn brydlon.

2.40 Os yw'r Cynhyrchydd yn methu â sicrhau a chynnal unrhyw Bolisi Yswiriant, yna yn ddiragfarn i'w hawliau o dan y Drwydded gall S4C sicrhau a chynnal y fath yswiriant yn enw'r Cynhyrchydd fel asiant y Cynhyrchydd neu yn ei henw ei hun ar gost y Cynhyrchydd. Bydd y gost yn cael ei didynnu o unrhyw arian sy'n daladwy gan S4C i'r Cynhyrchydd; fel arall, bydd y Cynhyrchydd yn ad-dalu yn brydlon cyfanswm unrhyw bremiymau a dalwyd gan S4C mewn perthynas â'r fath bolisi.

2.41 Bydd y Cynhyrchydd yn gyfrifol am gadw yn ddiogel prif gopi wrth gefn o Raglen S4C ("duplicate master copy") tra pery Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded ynghyd â chwe (6) blynedd o derfyn Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded trwy dreigl amser. Caiff S4C hawl llwyr a dilyffethair i'r cyfryw gopi yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded ac wedi hynny, trwy roi rhybudd rhesymol o flaen llaw i'r Cynhyrchydd. *Cadw yn Ddiogel*

2.42 Wedi'i ddileu.

2.43 Bydd yr holl gyfranwyr creadigol i Raglen S4C wedi cael eu cytundebu yn unol ag amodau cytundebau perthnasau diwydiannol priodol a gydnabyddir gan S4C (sef fel rheol y cytundebau perthnasau diwydiannol a negodwyd gan TAC â'r Undebau/Urdd sy'n cynrychioli cyfranwyr creadigol yn benodol ar gyfer rhaglenni a gomisiynir gan S4C. Pan fydd y Cynhyrchydd yn gwneud unrhyw *Bargeinio Torfol*

drefniadau eraill gyda'r cyfranwyr creadigol i Raglen S4C, yna mae S4C yn cadw'r hawl i gymeradwyo'r trefniadau hynny yn benodol.

2.44 Lle bo'r Atodiad yn nodi neu lle bo S4C yn hwyrach yn hysbysu'r Cynhyrchydd bod Rhaglen S4C i gynnwys isdeitlau, arwyddo neu sain-ddisgrifio a bod y fath ddeunydd i'w gynhyrchu gan y Cynhyrchydd, mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i wneud neu i gomisiynu'r gwaith isdeitlo, arwyddo neu sain-ddisgrifio ac i Gyfleu'r cyfryw i S4C yn unol â'r Canllawiau Isdeitlo, y Gofynion Technegol a'r Gofynion Cyfleu ac unrhyw Ganllawiau a Pholisïau perthnasol eraill a gyhoeddir ar y Wefan Gynhyrchu ac a hysbyswyd i TAC a/neu a gyhoeddwyd gan Ofcom erbyn y Dyddiad Cyfleu. Lle bo'r angen i ddarparu'r fath ddeunydd wedi ei nodi yn yr Atodiad, mae cost y cyfryw yn gynwysedig yn y Ffi Drwydded. Lle bo'r angen i ddarparu'r fath ddeunydd yn cael ei gyfathrebu i'r Cynhyrchydd gan S4C yn hwyrach, bydd cost y fath ddeunydd yn fater i'w gytuno rhwng y Cynhyrchydd a Rheolwr Gweithrediadau Cynnwys S4C (neu unrhyw berson arall y bydd S4C yn ei ddynodi o bryd i'w gilydd). *Isdeitlo, arwyddo sain-ddisgrifio*

2.45 Bydd S4C yn berchen ar unrhyw ddeunyddiau mynediad i deledu a gomisiynir ganddi a bydd ganddi'r hawl i olygu unrhyw ddeunydd isdeitlo, sain-ddisgrifio neu arwyddo a ddarperir gan y Cynhyrchydd. Os yw'r Cynhyrchydd yn dymuno cael copi o'r fath ddeunydd yn y ffurf y'i darlledwyd, bydd ganddo'r hawl i wneud cais i dderbyn copi ar roi rhybudd rhesymol ac ar yr amod ei fod yn talu costau S4C o ran darparu'r copi.

2.46 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd gan S4C ddisgresiwn llwyr o ran penderfynu pwy fydd yn cynhyrchu unrhyw ddeunydd isdeitlo, arwyddo neu sain-ddisgrifio, boed gan S4C yn fewnol, gan y Cynhyrchydd neu gan drydydd parti.

2.46A Lle bo Briff Golygyddol a Busnes S4C yn cael ei awdurdodi ar 1 Ionawr 2022 neu'n hwyrach, rhaid i'r Cynhyrchydd gwblhau cyfrifiannell ôl troed carbon albert ar gyfer y Rhaglen. *Albert*

2.47 Ymdrinnir ag anghydfodau'n ymwneud â chomisiynu, cytundebu, cynhyrchu, darlledu ac ymelwa ar y Rhaglen yn unol â pharagraff 29 o'r Telerau Masnach AR YR AMOD bod paragraff 29 yn ddiragfarn i hawliau a rhwymedïau cyfreithiol y partïon mewn perthynas ag unrhyw dor-cytundeb neu ddiffyg cyflawni unrhyw warantau, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau a bennir yn y Drwydded neu unrhyw esgeulustod, diffyg gofal neu weithredoedd twyllodrus gan y naill barti neu'r llall. *Anghydfodau*

<u>Cymal 3 – Cyfleu</u>

3.1 Ni ystyrir bod Rhaglen S4C wedi ei Chyfleu nes bydd y Cynhyrchydd wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion y Drwydded, y Canllawiau a Pholisïau, yr Atodiad, y Gofynion Technegol a'r Gofynion Cyfleu. *Gofynion Cyfleu*

3.2 Rhaid i Raglen S4C gyrraedd yn barod i'w Darlledu heb iddi orfod cael ei dychwelyd i'r Cynhyrchydd, er enghraifft, er mwyn cywiro camgymeriadau sillafu, ailosod teitlau neu sicrhau hawliau y dylid fod wedi eu clirio. Os bydd

angen dychwelyd tâp i'r Cynhyrchydd, nodir hyn mewn adroddiad i'r Cyfarwyddwr Cynnwys.

3.3 Cyflëir ar neu cyn y Dyddiad Cyfleu yn rhydd rhag unrhyw a phob hawliad, lien, arwystl, morgais neu lyffethair o ba bynnag natur, oni bai am Daliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau ac unrhyw gyfyngiadau mewn perthynas â'r Deunydd Trydydd-bartïon a gymeradwywyd gan S4C yn yr Atodiad. Ni fydd unrhyw Daliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau yn daladwy gan S4C am unrhyw ddefnydd sydd yn ôl yr Atodiad wedi ei 'brynu mâs'. Os na fydd y Cynhyrchydd yn gallu Cyfleu erbyn y Dyddiad Cyfleu, rhaid iddo drafod y mater â Thîm Materion Busnes S4C drwy mb@s4c.cymru cyn gynted ag y bydd yr oedi'n hysbys neu y dylai fod yn rhesymol hysbys i'r Cynhyrchydd. Rhaid i unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt (ni ddylai S4C dynnu'r cytundeb yn ôl neu ei ohirio yn afresymol) gael eu cadarnhau'n ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gan dîm Materion Busnes S4C cyn i'r amrywiad cytundebol gofynnol ddod i rym a chyn y gellir dibynnu arno.

Dyddiad Cyfleu

3.4 Bydd y Wybodaeth am y Rhaglen yn gyflawn ac yn gywir. Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i gyfleu'r Wybodaeth am y Rhaglen erbyn y dyddiadau perthnasol a bennir yn Atodlen y Deunydd Cyfleu.

Gwybodaeth am y Rhaglen

3.5 Yn ogystal â darparu'r Wybodaeth am y Rhaglen, bydd y Cynhyrchydd yn cadw cofnodion llawn a chywir a'r holl waith papur cytundebol o ran cytundebu cyfranwyr i Raglen S4C a thrwyddedu'r Deunydd Trydydd-bartïon ar gyfer ei ddefnyddio o fewn Rhaglen S4C, a bydd yn caniatáu i S4C i'w harchwilio, copïo a'u defnyddio heb unrhyw rwystr a heb dâl.

3.6 Wedi Cyfleu Rhaglen S4C, bydd S4C yn hysbysu'r Cynhyrchydd os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau dan Gymal 2.5.

3.7 Ar yr amod bod Rhaglen S4C a'r Wybodaeth am y Rhaglen wedi eu Cyfleu erbyn y Dyddiad Cyfleu, bernir bod S4C wedi derbyn y Rhaglen ar ddyddiad darllediad cyntaf Rhaglen S4C, oni bai bod S4C wedi hysbysu'r Cynhyrchydd yn ysgrifenedig, gan roi rhesymau, ei fod yn gwrthod Rhaglen S4C o fewn 10 diwrnod i'r Darllediad.

Derbyn Rhaglen S4C

3.8 Ni fernir bod darlledu Rhaglen S4C neu unrhyw ymarfer arall o Hawliau S4C yn golygu bod Rhaglen S4C yn cydymffurfio â'r Canllawiau a Pholisïau ac ni ystyrir fel ildiad gan S4C o unrhyw dorri ar y Drwydded gan y Cynhyrchydd nac fel ildiad o hawliau a rhwymedïau S4C mewn perthynas â'r fath dor-cytundeb gan gynnwys hawl S4C i fynnu Cyfleu unrhyw Wybodaeth am y Rhaglen neu unrhyw wybodaeth arall y mae gan S4C yr hawl i'w derbyn dan y Drwydded ac sydd heb eu Cyfleu ar yr adeg honno.

3.9 Os yw'r Cynhyrchydd yn cyfleu Rhaglen S4C neu unrhyw Bennod ohoni yn hwyr neu'n annigonol, bydd gan S4C yr hawl i ddidynnu, o'r arian sy'n ddyledus gan S4C i'r Cynhyrchydd o dan y Drwydded neu unrhyw gytundeb arall, neu i'w hawlio fel dyled sy'n ddyledus ar hawliad S4C, iawndal ariannol penodedig yn unol â'i bolisi Cyfleu Tapiau a Gwaith Papur ac Iawndal Penodedig fel y'i cyhoeddwyd ar y Wefan Gynhyrchu (neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig neu amnewid y cytunir arno gyda TAC o bryd i'w gilydd). Mae'r partïon yn cydnabod

Iawndal Ariannol Penodedig am Gyfleu hwyr neu annigonol

a chytuno bod y fath iawndal yn amcangyfrif dilys o flaen llaw o'r golled y mae S4C yn debygol o ddioddef mewn perthynas yn unig â'r amser a'r adnoddau a ddefnyddir gan reolwyr S4C a'r costau gweinyddol a ddioddefir gan Adrannau S4C wrth ymdrin â'r fath oedi a'i ganlyniadau.

3.10 Lle bo S4C yn ymarfer ei hawliau dan Gymal 3.9, ystyrir y cyfryw iawndal ariannol penodedig ag a delir neu ag a ddidynnir fel rhwymedi cyflawn o ran amser rheolwyr S4C a'r costau gweinyddol a ddioddefwyd ond ni fydd yn atal S4C rhag gweithredu ei hawliau a'i rhwymedïau (boed o dan y Drwydded neu fel arall) mewn perthynas ag unrhyw golledion eraill.

3.11 Os bydd unrhyw Wybodaeth am y Rhaglen heb ei chyflwyno i S4C o fewn 28 niwrnod i Gyfleu Rhaglen S4C neu'r Bennod y mae'n berthnasol iddi (neu fel y nodir fel arall yn y Drwydded) i S4C, yna gall S4C gymryd unrhyw gamau y bydd yn ystyried bod angen eu cymryd i gael y wybodaeth honno a thynnir cost resymol gwneud hynny (hyd at uchafswm o £500 fesul Rhaglen/Bennod 30-munud, neu pro rata ohoni) o unrhyw arian sydd fel arall yn daladwy i'r Cynhyrchydd neu (os yw'r gost resymol yn fwy na hynny) fe'i codir ar y Cynhyrchydd fel dyled gytundebol a bydd yn daladwy ar unwaith ar hawliad S4C. Os na dderbyniwyd cost unrhyw drwydded gerddoriaeth MCPS ar hyn o bryd, bydd angen i'r partïon drafod lwfans realistig ar gyfer y gost hon a chadw'r swm mewn cyfrif ar wahân tra'n aros i'r anfoneb gael ei derbyn.

<u>Cymal 4 - Darpariaethau Ariannol</u>

Taliadau i'r Cynhyrchydd

4.1 Yn ddarostyngedig bob amser i ac ar yr amod bod y Cynhyrchydd yn cydymffurfio ac yn cyflawni ei ymrwymiadau a'i warantau yn unol â'r Drwydded yn llawn ac yn brydlon ac wedi rhoi'r arwystl, os yn ofynnol gan S4C, a'i fod wedi sicrhau pob cymeradwyaeth a bennir yn y Drwydded, bydd S4C yn talu'r Ffi Drwydded i'r Cynhyrchydd yn unol â'r Dylif Ariannol a darpariaethau eraill y Drwydded. Pan fo S4C a TAC wedi cytuno (cyn dyddiad y Drwydded) ar drefniadau ble y bydd y cynhyrchwyr yn cyfrannu i'r gronfa a reolir gan DUK ar ran ei aelodau, bernir bod y fath drefniadau wedi cael eu hymgorffori yn y Drwydded yn y fath fodd ag a gytunwyd rhwng TAC ac S4C.

4.2 Bydd y Cynhyrchydd yn cyflwyno anfonebau TAW i gyd-fynd â'r dyddiadau yn y Dylif Ariannol a bydd gan S4C ddeg (10) Diwrnod Gwaith o dderbyn pob anfoneb neu ar gyrraedd unrhyw Garreg Filltir a nodir yn erbyn pob Rhandaliad neu rywle arall yn yr Atodiad (pa un bynnag sydd hwyraf) i dalu'r fath anfoneb.

4.3 Heb amharu ar ei hawliau a'i rhwymedïau mewn mannau eraill yn y Drwydded neu'n gyffredinol, bydd gan S4C yr hawl i gadw'n ôl y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw Randaliad sy'n ddyledus i'r Cynhyrchydd dan y Drwydded os:-

4.3.1 yw S4C wedi hysbysu'r Cynhyrchydd o newidiadau sydd eu hangen dan Gymal 2.5; neu

4.3.2 nad yw'r Cynhyrchydd wedi Cyfleu Rhaglen S4C erbyn y Dyddiad Cyfleu; neu

4.3.3 nad yw pob caniatâd sy'n ofynnol dan y Drwydded wedi ei sicrhau neu os yw'r Cynhyrchydd fel arall yn torri telerau'r Drwydded.

4.4 Ni ddehonglir y ffaith bod S4C wedi talu'r cyfan neu ran o anfoneb i olygu bod S4C yn derbyn bod yr anfoneb honno'n gywir neu'n ddilys.

TAW

4.5 Nid yw'r symiau a nodir yn y Drwydded yn cynnwys Treth Ar Werth ac fe delir y dreth honno pan fo'n briodol wedi derbyn anfoneb TAW gywir.

Adroddiadau Cost a Datganiadau

4.6 Bydd y Cynhyrchydd yn cadw cofnodion ariannol a fydd yn ddigonol i alluogi S4C i greu trywydd archwilio o'r costau cynhyrchu.

4.7 Bydd S4C a'r Cynhyrchydd yn cytuno ar ffurf ac amlder unrhyw adroddiadau cost wrth drafod y llif arian ar gyfer y cynhyrchiad.

4.8 Bydd llif arian yn cael ei ryddhau fel y nodir yn y Telerau Masnach (paragraff 9.7 yn y Trydydd Argraffiad). Gall S4C ofyn am adroddiad cost gan y Cynhyrchydd wrth gynhyrchu neu ar ôl cyfleu'r Rhaglen a bydd y Cynhyrchydd yn darparu unrhyw fanylion y bydd yn rhesymol ofynnol gan S4C.

4.9 Heb ei ddefnyddio.

4.10 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu y bydd pob Adroddiad wedi ei gwblhau'n llawn, yn gywir ac yn ffyddlon.

Archwilio Costau

4.11 Yn gyffredinol, bydd S4C yn gweithredu trefn o archwilio ar hap ar draws pob comisiwn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau sy'n bodoli gyda'i harchwilwyr er mwyn sicrhau gwerth gorau ac atebolrwydd S4C am arian cyhoeddus.

4.12 Mae S4C yn cadw'r hawl i archwilio'r cyfrifon a'r cofnodion o bryd i'w gilydd yn ystod y cyfnod cynhyrchu ac i archwilio'r costau llawn o fewn wyth wythnos o gyflwyno adroddiad cost terfynol a gwaith papur Rhaglen S4C (ac eithrio pan fo mater cudd yn codi gan olygu nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny). Er gwaethaf cyffredinolrwydd y cymal hwn gall S4C hefyd archwilio unrhyw Raglen ar unrhyw adeg:

4.12.1 os yw'n gomisiwn cyntaf i'r Cynhyrchydd, neu os yw'r personél rheoli cyllid newydd gychwyn yn eu swyddi neu'n amhrofiadol, neu os bu problemau gweinyddol yn ystod y broses gynhyrchu; neu

4.12.2 os ceir amrywiadau sylweddol (uwch neu is) i'r Ffi Drwydded; neu

4.12.3 os yw Rhaglen S4C fel y'i Cyflëir yn wahanol i'r Brîff Golygyddol a Busnes/telerau eraill y Drwydded.

4.13 Wedi derbyn yr adroddiad cost terfynol, bydd y Rheolwr Gweithrediadau Cynnwys yn cadarnhau os cynhelir archwiliad manwl neu beidio. Ni fydd rhandaliad olaf y Ffi Drwydded yn ddyledus nes bydd S4C wedi cael y cyfle i gynnal archwiliad manwl o'r adroddiad cost terfynol. Os na chynhelir unrhyw

archwiliad, bydd S4C yn rhyddhau'r rhandaliad olaf, ond bydd yn cadw'r hawl i weld y cyfrifon a'r cofnodion.

4.14 Bydd y Cynhyrchydd yn rhoi pob cymorth rhesymol ac yn cydweithredu'n llawn â phob archwiliad dilysu ac archwiliad manwl a gynhelir gan S4C.

4.15 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu, yn cytuno ac yn ymrwymo i wario'r fath symiau ar yr Elfennau Allweddol ag a gytunwyd yn Adran 5 y Brîff Golygyddol a Busnes. *Elfennau Allweddol*

4.16 Lle y gofynnir amdano yn yr Atodiad, bydd y Cynhyrchydd, fel rhag-amod i ymrwymiadau talu S4C, yn agor cyfrif banc ar ymddiriedolaeth ac ar wahân mewn perthynas â Rhaglen S4C yn ei enw ei hun ac yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig o'r holl fanylion y bydd S4C yn eu mynnu am y cyfryw gyfrif. Telir y Rhandaliadau i'r Cyfrif Banc. *Cyfrif Banc*

4.17 Bydd y Cynhyrchydd fel rhag-amod i dderbyn unrhyw dâl yn cyfleu llythyr ymddiriedaeth i S4C, wedi ei arwyddo gan y Banc. Ni fydd y Cynhyrchydd yn talu unrhyw arian allan o'r Cyfrif Banc oni fydd hynny at ddibenion y Drwydded. Bwriedir i'r Cyfrif Banc fod yn gofnod llawn o'r holl dderbyniadau a thaliadau sy'n berthnasol i Raglen S4C a Rhaglen S4C yn unig, ac ni fydd y Cynhyrchydd dan unrhyw amgylchiadau o gwbl yn defnyddio'r Cyfrif Banc fel ei gyfrif busnes.

4.18 Gyda chytundeb S4C, gall y Cynhyrchydd dalu unrhyw arian dros ben nad oes ei angen yn y tymor byr ac sy'n cael ei gadw yn y Cyfrif Banc, i gyfrif cadw sy'n cynnig llog, er y gall S4C fynnu bod yr arian dros ben yn cael ei ddychwelyd i S4C nes bydd ei angen ar gyfer y cynhyrchiad. Bydd angen sicrhau llythyr ymddiriedaeth ychwanegol gan y Banc ar gyfer unrhyw fath o gyfrif cadw sy'n cynnig llog.

4.19 Mae'r Cynhyrchydd yn datgan y bydd yn dal yr holl arian a dderbynnir yn sgil y Drwydded fel ymddiriedolwr ar ymddiriedaeth i'w ddefnyddio at ddibenion y Cytundeb yn unig nes y Cyflëir Rhaglen S4C. Mae S4C yn cytuno a chydnabod y gall y Cynhyrchydd ddefnyddio'r Rhandaliadau neu'r gyfran briodol ohonynt i ddigolledi'r Cynhyrchydd am unrhyw gostau dilys a ddioddefwyd yn wirioneddol gan y Cynhyrchydd wrth gynhyrchu Rhaglen S4C ynghyd â chyfran briodol o elw a gorbenion heb fod yn euog o dor-ymddiriedaeth.

4.20 Bydd y Cynhyrchydd yn talu unrhyw orwariant. *Gorwariant*

4.21 Yr unig eithriadau i'r uchod yw'r canlynol:

4.21.1 Bydd S4C yn talu costau ychwanegol sydd wedi'u nodi a'u cytuno'n ysgrifenedig gan Faterion Busnes S4C ymlaen llaw (ni fydd cyfathrebu penderfyniad S4C ynghylch a ddylid ariannu gorwariant o'r fath yn cael ei atal neu ei ohirio'n afresymol) sy'n deillio o ofyn i'r Cynhyrchydd wneud gwaith ychwanegol o ganlyniad i benderfyniadau golygyddol S4C. Ar yr amod na fydd S4C yn gyfrifol am gwrdd â chostau'r newidiadau golygyddol sy'n ofynnol i raglen lle nad yw'r Cynhyrchydd wedi cydymffurfio â gofynion y Briff Golygyddol a Busnes. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd y Cynhyrchydd yn gyfrifol am hysbysu tîm Materion Busnes S4C am unrhyw waith ychwanegol sy'n deillio o benderfyniadau

golygyddol y Comisiynydd mewn da bryd a chyn mynd i unrhyw wariant ychwanegol; neu

4.21.2 pan fo S4C yn cytuno, yn dilyn trafodaeth ddidwyll rhwng y partïon, bod y gorwariant wedi codi am resymau y tu hwnt i reolaeth y Cynhyrchydd. Pryd hynny gall S4C, yn ôl ei disgresiwn ei hun, gytuno cyfrannu at y gorwariant.

4.21A Heb amharu ar gymal 4.15 uchod, bydd gan y Cynhyrchydd hawl i gadw unrhyw danwariant sy'n deillio o gynhyrchu'r Rhaglen ar yr amod bod S4C yn fodlon nad yw tanwariant o'r fath wedi codi ar draul cynnwys golygyddol neu dechnegol neu'n torri'r Drwydded (e.e. lle mae'r Cynhyrchydd wedi gwario llai ar yr Elfennau Allweddol, neu ar ansawdd y Rhaglen ar y sgrin neu lle mae gwerthoedd cynhyrchu'r Rhaglen yn is na'r hyn y cytunwyd arno yn y Briff Golygyddol a Busnes). *Tanwariant*

4.22 Bydd y Cynhyrchydd yn gwneud unrhyw daliadau o'r fath sy'n ofynnol gan, ac yn cydymffurfio fel arall gydag, unrhyw gynllun prentisiaeth a rennir y cytunwyd arno rhwng S4C a TAC o bryd i'w gilydd. *Hyfforddiant*

4.23 Wedi'i ddileu.

<u>Cymal 5 – Trwydded, Ataliad, Hawliau Gwaelodol ac Ymelwa</u>

5.1 Mae'r Cynhyrchydd yn rhoi Hawliau S4C yn ddi-alw'n-ôl (ond yn ddarostyngedig i Gymal 7.8 isod) i S4C ac i'w Chwmnïau Teulu i'w hymarfer ledled y Diriogaeth yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded. Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu, yn ymrwymo ac yn cytuno y bydd yn sicrhau mewn unrhyw drwyddedau parthed y Rhaglen a arwyddir gan y Cynhyrchydd â thrydydd-bartïon y tu allan i'r Diriogaeth ac mewn unrhyw gytundebau gyda chyfranwyr neu berchnogion y Deunydd Hawliau Gwaelodol, na fydd unrhyw ddarllediadau anfwriadol o Wasanaethau S4C y tu allan i'r Diriogaeth o ganlyniad i faint dalgylch y lloeren ('satellite overspill') a/neu unrhyw ymarfer gan S4C o'r Hawliau Ailddarlledu Cydamserol a'r Hawliau Ar-Lein yn tarfu ar hawliau unrhyw un o'r fath drydydd-bartïon. *Trwydded*

5.1A Heb amharu ar gymal 5.1 uchod, gall S4C arfer yr Hawliau Hyrwyddo ar unrhyw adeg yn dilyn llofnodi'r Drwydded ar ran y ddwy ochr. Bydd yr hawl hon yn goroesi terfyniad Cyfnod y Drwydded ac (os yw'n berthnasol) Cyfnod Estynedig y Drwydded a bydd yn parhau heb gyfyngiad mewn amser. Ar yr amod, yn ddarostyngedig i gymal 5.1B isod, y bydd hawl S4C i ymarfer yr Hawliau Hyrwyddo ar ôl i Gyfnod y Drwydded ac (os yw'n berthnasol) Cyfnod Estynedig y Drwydded ddod i ben, yn amodol ar glirio unrhyw ddeunydd trydydd parti a ymgorfforir yn y deunydd a ddefnyddir.

5.1B Ni ddylid tynnu Clipiau neu Ddeunydd Crai a gyflenwir gan S4C yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Trwydded Estynedig i'r cyfryngau cymdeithasol ac YouTube drwy arfer ei hawliau o dan Hawliau Clipiau a/neu o dan fraich (vi) o'r Hawliau Hyrwyddo ar ddiwedd Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod

Trwydded Estynedig. Gall Clipiau neu Ddeunydd Crai o'r fath, yn amodol ar gyfreithiau perthnasol bob amser, aros ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol a YouTube S4C am byth heb fod angen unrhyw ganiatâd neu daliad pellach.

Hawliau Ehangach ac oriau darlledu

5.2 Os digwydd i'r Telerau Masnach gael eu hamrywio wedi dyddiad y Drwydded trwy gytundeb rhwng S4C a TAC (neu unrhyw sefydliad arall sydd ar unrhyw adeg yn disodli neu'n cymryd lle TAC, ac sy'n sefydliad sydd yn cynrychioli buddiannau cwmnïau cynhyrchu sy'n cynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C) er mwyn cynnig hawliau ehangach i S4C, yna mae'r Cynhyrchydd fel perchennog yr hawlfraint yn y Rhaglen trwy hyn yn cytuno y bydd gan S4C yr hawl i ymarfer y cyfryw hawliau ehangach mewn perthynas â'r Rhaglen ar yr amod (a) ei fod wedi cael cydsyniad y Cynhyrchydd (na chaiff ei atal neu ei ohirio'n afresymol) a (b) heb dâl pellach a heb yr angen i S4C i sicrhau cytundeb atodol i'r Drwydded. Mae'r fath ganiatâd yn ymestyn i'r hawlfraint yn y Rhaglen ei hun ac i'r fath gyfraniadau trydydd-parti a deunydd hawliau gwaelodol y mae'r Cynhyrchydd o dan ddyletswydd gytundebol o dan y Drwydded i'w clirio yn unig. Cyfrifoldeb S4C fydd sicrhau a thalu am unrhyw gliriadau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn medru ymarfer y cyfryw hawliau ehangach os nad oedd y Cynhyrchydd o dan ddyletswydd gytundebol o dan y Drwydded i'w clirio yn wreiddiol.

5.2A Os yw Rhaglen S4C wedi'i chomisiynu fel Rhaglen Plant ac Addysgol ar gyfer Darlledu ac os bydd S4C wedyn yn trefnu Darlledu Rhaglen S4C y tu allan i'r oriau hynny ac fel rhan o amserlen gyffredinol S4C bydd S4C yn ymrwymo i drwydded ychwanegol ar wahân gyda'r Cynhyrchydd a bydd yn gwneud taliad bonws i'r Cynhyrchydd yn unol â Thabl 4 o'r Tablau Ffioedd er mwyn cael yr hawl i Ddarlledu Rhaglen S4C fel rhan o amserlen gyffredinol S4C drwy gyfrwng tri (3) Phecyn (fel y'u diffinnir yn y drwydded ychwanegol).

Cyfnod Estynedig y Drwydded

5.3 Gall S4C weithredu Cyfnod Estynedig y Drwydded drwy roi o leiaf pedair (4) wythnos o rybudd ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd cyn i Gyfnod y Drwydded ddod i ben. Bydd S4C yn gorfod talu ffi i'r Cynhyrchydd yn unol â Thabl 1 y Tablau Ffioedd am yr estyniad.

Darllediadau Ychwanegol a Hawliau Fideo Ar Alw S4C

5.4 Bydd gan S4C yr hawl i brynu Darllediadau a Ffenestri Fideo Ar Alw ychwanegol yn ystod Cyfnod y Drwydded neu Gyfnod Trwydded Estynedig ar ôl rhoi pedair (4) wythnos o rybudd ysgrifenedig ac ar ôl talu ffi bellach i'r Cynhyrchydd yn unol â Thablau 1 a 2 o'r Tablau Ffioedd.

5.5 Os yw'r Drwydded yn cynnwys yr hawl i Ddarlledu Rhaglen S4C hyd at nifer penodol o weithiau, gall S4C ddewis Darlledu'r rhaglen drwy gyfrwng Darllediad Cydamserol, Darllediad Dilynol neu ar rannau cyfansoddol unigol o Wasanaethau S4C. Bydd Darllediadau Cydamserol yn cyfrif fel un darllediad. Pan fo'r Rhaglen yn cael ei Darlledu gydag arwyddo ar-sgrin o fewn bloc neu slot arwyddo cydnabyddedig neu os yw'n Ddarllediad Dilynol, ni chaiff y cyfryw Ddarllediad ei ddidynnu fel Darllediad a bydd yn Ddarllediad ychwanegol heb gost i S4C ac yn cael ei awdurdodi o fewn Ffi'r Drwydded.

5.6 Wedi'i ddileu.

5.7 Ni fydd S4C yn awdurdodi lawrlwytho'r Rhaglen oni bai ei fod wedi defnyddio technoleg rheoli hawliau digidol i sicrhau na fydd modd i'r defnyddiwr gadw copïau o'r Rhaglen ar ôl i'r Ffenestr Fideo Ar Alw o 150 diwrnod i ben.

5.7A Gall Hawliau Fideo Ar Alw S4C, yn ddarostyngedig i baragraff 5.8B isod, gael eu harfer:

(i) yn fyd-eang yn achos y Ffenestr Fideo Ar Alw 150 diwrnod gyntaf;

(ii) fel a ganlyn yn achos yr ail, y drydedd ac unrhyw Ffenestri Fideo Ar Alw ychwanegol:

(a) yn y DU dim ond os yw'r Cynhyrchydd, ar yr adeg berthnasol, wedi cytuno ar delerau â thrydydd parti ar gyfer Ymelwa ar Raglen S4C sy'n atal S4C rhag arfer Hawliau Fideo Ar Alw S4C yn fyd-eang; neu

(b) pan nad yw 5.8A(ii)(a) yn gymwys, yn fyd-eang.

5.7B Bydd Hawliau Fideo Ar Alw S4C yn gyfyngedig i'r DU pan na fydd hawliau Fideo Ar Alw byd-eang ar gael.

5.8 Os bydd S4C yn penderfynu ei fod yn dymuno ymarfer yr Hawliau Ar-Lein yn fwy helaeth na'r hyn a ganiateir uchod neu mewn unrhyw fodd sy'n wahanol i'r drwydded a roddwyd uchod, bydd S4C yn trafod ei gynlluniau â'r Cynhyrchydd, a fydd yn ymdrechu i gytuno ar delerau a fydd yn galluogi S4C i wneud hynny.

5.9 Lle bo S4C a'r Cynhyrchydd yn cydnabod bod Rhaglen S4C o werth neu ddiddordeb addysgol, e.e. os bydd cynnwys Rhaglen S4C yn dod yn rhan o faes astudio unrhyw bwnc dan y Cwricwlwm Cenedlaethol, bydd S4C a'r Cynhyrchydd yn trafod mewn ewyllys da os oes gan y Cynhyrchydd unrhyw gynlluniau i Ymelwa ar Raglen S4C ac, yn benodol, i wneud Rhaglen S4C ar gael i'r rhai sy'n dymuno ei gwylio/defnyddio at ddibenion addysgol. Bydd y partïon (gan weithredu'n rhesymol a gyda'r bwriad o wneud Rhaglen S4C ar gael i'r diben hwn) yn ymdrechu i gytuno ar sut y dylid gwneud Rhaglen S4C ac unrhyw ddeunydd atodol ar gael, gan bwy ac ar ba delerau, ond mae S4C yn cydnabod mai'r Cynhyrchydd fydd â'r opsiwn cyntaf i wneud hynny.

5.10 Os nad yw'r Cynhyrchydd yn bwriadu gwneud Rhaglen S4C ar gael mewn ffordd a fyddai'n galluogi pobl i'w defnyddio i'r perwyl hwn o fewn cyfnod rhesymol (heb fod dros 2 fis) o adnabod y cyfle, ac nid yw'r Cynhyrchydd wedi hysbysu S4C o unrhyw resymau dilys dros beidio ei rhyddhau (a bydd S4C yn gweithredu'n rhesymol wrth ystyried dilysrwydd y rhesymau a roddir), gall S4C wneud Rhaglen S4C ar gael yn y fath fodd yn ystod y fath gyfnod ag y mae'r deunydd o ddiddordeb addysgol.

5.11 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu, yn ymrwymo ac yn cytuno na fydd, a bydd yn sicrhau na fydd ei drwyddedeion, yn Ymelwa ar y Rhaglen (nac unrhyw Benodau, Fformat, clipiau, Deunydd Hawliau Sylfaenol, Deunydd Crai, dyfyniadau neu ddeunyddiau mynediad teledu):- *Ataliadau*

5.11.1 mewn unrhyw gyfryngau yn y Diriogaeth tan ar ôl i saith (7) diwrnod clir ddod i ben o Ddarllediad cyntaf S4C o Raglen S4C (sef y darllediad cyntaf o'r bennod olaf yn achos cyfres); na

5.11.2 drwy unrhyw ddull Darlledu (gan gynnwys gorlifo) yn y Diriogaeth yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Trwydded Estynedig nac ar unrhyw adeg cyn dechrau Cyfnod y Drwydded.

Er mwyn osgoi amheuaeth, lle mae Rhaglen S4C yn Gyfres Dychwelyd, bydd yr Ataliad yr un mor berthnasol i bob rhaglen y mae'r Rhaglen yn Ddilyniant iddi er y gallai'r daliwr gwreiddiol mewn perthynas â hwy fod wedi dod i ben; na

5.11.3 drwy unrhyw fath o Fideo Ar Alw sydd ar gael yn y Diriogaeth
(i) pan fo'r Rhaglen yn un rhaglen, am gyfnod o chwe mis o'r dyddiad y mae'r Rhaglen ar gael am y tro cyntaf gan S4C, boed hynny ar alw neu ar ffurf linol yn y Diriogaeth.

(ii) pan fo'r Rhaglen yn rhan o gyfres o raglenni, am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad y mae pennod gyntaf y Rhaglen ar gael am y tro cyntaf gan S4C, boed hynny ar alw neu ar ffurf linol yn y Diriogaeth.

5.12 Wedi'i ddileu.

5.13 Yn ystod y cyfnodau ecsgliwsif y cyfeiriwyd atynt uchod, ni fydd y Cynhyrchydd yn ymarfer neu'n caniatáu unrhyw ymelwa ar y Rhaglen neu unrhyw ran neu elfennau sylweddol ohoni trwy gyfrwng y Cyfryngau Newydd y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol oni bai bod S4C (gan weithredu'n rhesymol) yn fodlon bod y dechnoleg angenrheidiol yn bodoli i sicrhau na cheir unrhyw bosibilrwydd y bydd unrhyw ymarfer o'r fath yn effeithio ar y Deyrnas Gyfunol yn sgil gorlifo signalau neu fel arall.

5.13A Gall y Cynhyrchydd ofyn am ostyngiad i Gyfnod yr Ataliad a bydd S4C yn ystyried unrhyw gais o'r fath yn ddidwyll. Er nad oes unrhyw rwymedigaeth ar S4C i gytuno i Gyfnod Atal byrrach, bydd unrhyw ostyngiad yn adlewyrchu darpariaethau Polisi Rhyddhau Ataliad S4C o bryd i'w gilydd.

5.14 Os na nodwyd hynny eisoes yn y Brîff Golygyddol a Busnes, bydd S4C a'r Cynhyrchydd yn trafod a ddylid creu a chynnal gwefan sy'n atodol i neu dudalennau ar wefan S4C ar gyfer Rhaglen S4C ac, os felly, gan bwy a phwy ddylai dalu am hyn. Os ceir cytundeb y dylid creu gwefan neu dudalennau ar y we ar gyfer y Rhaglen, bydd y partïon yn trafod ac yn ymdrechu i gytuno ar natur, cynnwys (gan gynnwys pa ddeunydd sy'n perthyn i'r Cynhyrchydd a pha ddeunydd newydd a ddefnyddir ar y wefan), safon y wefan, amseriad ei harddangos ac am ba mor hir y dangosir y wefan a'r gydnabyddiaeth ar gyfer y Cynhyrchydd. *Hawliau Gwefan*

5.15 Lle bo S4C yn comisiynu gwefan yn hytrach na'i chynhyrchu yn fewnol, bydd y fath gomisiwn yn annibynnol o'r Drwydded ac ni fydd Cod Ymarfer S4C yn weithredol. Bydd y telerau yn cael eu negydu yn unigol rhwng y partïon ac, yn gyffredinol, bydd S4C yn disgwyl bod yn berchen ar yr hawlfraint yn y wefan ac

mewn unrhyw ddeunyddiau (boed yn destun, yn waith graffeg, yn waith celf arall, yn ddata, yn wybodaeth neu'n unrhyw gynnwys arall) sy'n deillio o'r comisiwn.

5.16 Bydd gan S4C yr hawl i greu neu gomisiynu deunydd(iau) newydd ar gyfer y wefan (gan gynnwys deunyddiau neu elfennau rhyngweithiol) sy'n cynnwys neu a seiliwyd ar unrhyw gymeriadau, lleoliadau, themâu, straeon neu eitemau eraill yn y Rhaglen. Bydd S4C yn cydnabod perchennog yr hawlfraint yn y Rhaglen ac yn aseinio'r hawlfraint mewn unrhyw waith celf newydd sydd wedi'i seilio ar waith celf y perchennog (ond yn ddarostyngedig i drwydded o blaid S4C i'w ddefnyddio ar y wefan) i berchennog y Rhaglen heb dâl.

5.17 Er mwyn osgoi amheuaeth:

5.17.1 bydd gan S4C yr hawl (ond nid yw'n ymrwymo) i arddangos unrhyw wefan sy'n atodol i'r rhaglen ar unrhyw adeg ac o bryd i'w gilydd yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded, oni bai bod S4C wedi cytuno fel arall gyda'r Cynhyrchydd;

5.17.2 bydd gan S4C yr hawl i addasu, diweddaru a datblygu unrhyw wefan sy'n atodol i'r rhaglen ar unrhyw adeg ac o bryd i'w gilydd yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded neu'r fath gyfnod byrrach ag a gytunir arno;

5.17.3 gall unrhyw wefan sy'n atodol i'r rhaglen sy'n cael ei sefydlu gan S4C, fod yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn ôl disgresiwn S4C, er mai diben y wefan yw hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i ddarllediadau S4C o Raglen S4C;

5.17.4 nid yw'r uchod yn atal y Cynhyrchydd rhag creu neu ddangos gwefan(nau) eraill (gan gynnwys gwefan(nau) masnachol) wedi'u seilio ar y Rhaglen neu unrhyw elfen ohoni ar yr amod bod y Cynhyrchydd yn sicrhau cymeradwyaeth S4C ar gyfer unrhyw wefan(nau) o'r fath ymlaen llaw. Ni fydd S4C yn gwrthod rhoi ei chymeradwyaeth yn afresymol ond bydd yn rhesymol i S4C wrthod rhoi ei chymeradwyaeth dan yr amgylchiadau canlynol:

5.17.4.1 os na fydd gwefan yn bodloni safonau technegol S4C; neu

5.17.4.2 os na fydd gwefan yn cyd-fynd â natur, naws a chynnwys y Rhaglen neu fel arall yn tanseilio neu'n adlewyrchu'n wael ar y Rhaglen; neu

5.17.4.3 os bydd y wefan yn rhoi'r argraff ei bod yn wefan swyddogol S4C.

5.18 Lle bo'r Cynhyrchydd yn creu ac yn cynnal ei wefan(nau) ei hun, ni fydd y Cynhyrchydd (oni bai y bydd S4C yn cytuno fel arall) yn dangos nac yn awdurdodi neu'n caniatáu i unrhyw drydydd-barti ddangos unrhyw Glip neu ddarn o'r Rhaglen neu unrhyw fersiwn ohoni mewn unrhyw gyfryngau tan ar ôl darllediad cyntaf S4C o Raglen S4C. Fodd bynnag, gall y Cynhyrchydd ddefnyddio Clip neu

Glipiau o Raglen S4C (na fydd unrhyw Glip unigol dros 30 eiliad o hyd ac na ddylai'r clipiau mewn cyfanswm fod dros 10% o hyd gwirioneddol y rhaglen, neu bum munud fel uchafswm, pa un bynnag yw'r cyfanswm isaf) ar wefan(nau) y Cynhyrchydd at ddibenion hyrwyddo'r rhaglen a Rhaglen S4C a darllediad(au) S4C o Raglen S4C cyn darllediad cyntaf S4C o Raglen S4C. Bydd unrhyw hyrwyddo o'r fath yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ysgrifenedig S4C.

5.19 Yn ogystal, bydd gan S4C yr hawl i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Crai yn ystod Cyfnod y Drwydded ac (os yw hynny'n berthnasol) unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded:

5.19.1 ar unrhyw wefan(nau) sy'n atodol i Raglen S4C; a/neu

5.19.2 unrhyw wefan(nau) corfforaethol a sefydlir gan S4C neu ei Chwmnïau Teulu o bryd i'w gilydd (yn hytrach nag neu'n ychwanegol i unrhyw wefan ar wahân neu dudalennau ar y we a neilltuwyd ar gyfer Rhaglen S4C); a/neu

5.19.3 ar unrhyw wefan(nau) generig a sefydlir ac a ddangosir gan S4C o bryd i'w gilydd (h.y. lle bo S4C yn creu tudalennau o fewn ei gwefan gorfforaethol i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i gategori neu gategorïau penodol o raglenni, e.e. Drama ar S4C neu Raglenni Chwaraeon ar S4C, yn hytrach nag neu'n ychwanegol i unrhyw wefan neu dudalennau ar y we sy'n cael eu neilltuo i Raglen S4C).

Cyn arfer ei hawliau o dan y cymal 5.19 hwn, bydd S4C yn gwirio'n gyntaf gyda'r Cynhyrchydd i sicrhau nad yw Clipiau'n cynnwys Deunydd Trydydd Parti. Bydd S4C yn gyfrifol am glirio a thalu am yr holl Ddeunydd Trydydd Parti sydd yn Rhaglen S4C y mae'n ei defnyddio ar ei gwefan(nau).

Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol

5.20 Os bydd S4C yn dymuno gweithredu'r Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol, bydd yn hysbysu'r Cynhyrchydd, a bydd gan y Cynhyrchydd saith (7) diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad i ddarparu mynegiant o ddiddordeb ysgrifenedig mewn cynhyrchu'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol i S4C. Os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Cynhyrchydd gynhyrchu'r Rhaglen Ddilynol am yr un Ffi Drwydded â Rhaglen S4C oherwydd costau cynhyrchu a chostau trydydd parti sydd y tu hwnt i'w reolaeth, bydd cyfnod trafod o wyth diwrnod ar hugain (28) (a fydd yn cael ei gyfrif o'r dyddiad y derbyniodd S4C hysbysiad y Cynhyrchydd) yn dilyn. Bydd y ddau barti yn cynnal trafodaethau o'r fath yn rhesymol ac yn ddidwyll. Os na fydd S4C a'r Cynhyrchydd wedi cytuno ar holl delerau'r comisiwn arfaethedig, gan weithredu'n rhesymol ac yn ddidwyll, cyn pen y fath gyfnod o wyth diwrnod ar hugain (28) neu os na fydd S4C yn derbyn hysbysiad gan y Cynhyrchydd cyn pen y saith (7) diwrnod angenrheidiol, bydd S4C yn rhydd i ddyfarnu'r comisiwn i drydydd parti neu bartïon ar y rhag-amod bod (1) S4C a'r Cynhyrchydd (gan weithredu'n rhesymol ac yn ddidwyll) wedi cytuno ar delerau trwydded i S4C gael ymelwa ar y Fformat a hawliau a deunydd eraill y Cynhyrchydd yn y Rhaglen er mwyn gwneud y cyfryw Raglen/Cyfres Ddilynol; a (2) bod S4C wedi talu unrhyw ffi fformat sy'n daladwy fel rhan o'r cyfryw delerau, ac os na fydd y partïon (gan weithredu'n rhesymol ac yn ddidwyll) yn medru cytuno ar delerau'r fath drwydded, caiff y mater ei ddatrys yn unol â'r drefn a bennir yng Nghymal 2.47.

5.21 Ni fydd y Cynhyrchydd yn cynhyrchu nac yn awdurdodi unrhyw drydydd-barti i gynhyrchu Rhaglen/Cyfres Ddilynol mewn iaith heblaw'r Gymraeg i'w darlledu neu i Ymelwa arni o fewn y Diriogaeth yn ystod Cyfnod yr Ataliad. Wedi i'r Cyfnod yr Ataliad hwnnw ddod i ben, bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny er mwyn galluogi S4C i benderfynu a yw'n dymuno bod yn gysylltiedig â Rhaglen/Cyfres Ddilynol o'r fath. Bydd y Cynhyrchydd yn darparu'r cyfryw fanylion ychwanegol ag y bo S4C yn rhesymol yn gofyn amdanynt.

5.22 Wedi derbyn hysbysiad dan Gymal 5.21, bydd gan S4C gyfnod o bedwar ar ddeg (14) Diwrnod Gwaith i hysbysu'r Cynhyrchydd yn ysgrifenedig a oes ganddi ddiddordeb mewn cyd-ariannu'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol neu greu fersiwn o'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol yn y Gymraeg wedi iddi gael ei chwblhau.

5.23 Os na fydd y Cynhyrchydd wedi derbyn hysbysiad o'r fath wedi'r cyfryw gyfnod o bedwar ar ddeg (14) Diwrnod Gwaith ddod i ben, bydd ganddo'r hawl (yn amodol ar Gymal 5.24) i symud ymlaen gyda'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol heb gyfranogiad S4C.

5.24 Lle bo S4C yn hysbysu'r Cynhyrchydd nad yw'n dymuno cyfranogi yn y broses o ariannu neu greu fersiwn o'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol yn y Gymraeg (neu os bernir dan Gymal 5.22 nad yw'n dymuno gwneud hynny), bydd gan y Cynhyrchydd yr hawl i symud ymlaen gyda Rhaglen/Cyfres Ddilynol ond bydd yn gwneud ymdrech rhesymol i sicrhau cydnabyddiaeth ar gyfer S4C yn y cyfryw Raglen/Cyfres Ddilynol sy'n cydnabod y ffaith bod S4C wedi ariannu Rhaglen S4C.

5.25 Os bydd S4C yn rhoi hysbysiad o'r fath i'r Cynhyrchydd yn ystod y cyfryw gyfnod o bedwar ar ddeg (14) diwrnod, bydd cyfnod trafod ecsgliwsif o wyth diwrnod ar hugain (28) yn dilyn, lle y bydd y partïon yn defnyddio'u hymdrechion rhesymol yn ddidwyll i gytuno ar delerau o ran ariannu, cynnwys golygyddol, y personél allweddol, yr ataliadau a'r holl ffactorau perthnasol eraill. Yn ystod y fath gyfnod, ni fydd y Cynhyrchydd yn trafod Rhaglen/Cyfres Ddilynol gydag unrhyw drydydd-bartïon yn y DG heb gydsyniad S4C o flaen llaw. Os na lwyddir i gytuno cyn pen y cyfnod o wyth diwrnod ar hugain (28), gall y Cynhyrchydd negydu gyda thrydydd-bartïon ond ni chaiff gwblhau unrhyw drefniadau ar gyfer fersiwn o'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol y bwriedir ei Darlledu yn y Gymraeg neu gyda thrac sylwebaeth neu ddeialog Cymraeg heb roi'r cyfle i S4C ymrwymo i'r un telerau ag a gytunwyd arnynt gyda'r trydydd-barti. Bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig o'r cyfryw delerau a bydd gan S4C gyfnod o ddeg (10) Diwrnod Gwaith i gadarnhau yn ysgrifenedig a yw'n fodlon ymrwymo ar y fath delerau. Os bydd S4C yn cadarnhau ei bwriad i ymrwymo ar y fath delerau, ni fydd y Cynhyrchydd yn symud ymlaen gyda'r trydydd-barti i wneud y fersiwn honno o'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol ond bydd yn rhydd i symud ymlaen gydag unrhyw fersiwn ieithyddol arall.

5.26 Nod S4C yw cynhyrchu a/neu gomisiynu a dosbarthu nwyddau a deunyddiau sy'n atodol i Raglen S4C a/neu sy'n ychwanegu at brofiad y gwylwyr o wylio Rhaglen S4C, ond heb dorri ar draws cynlluniau masnachol pendant y Cynhyrchydd. *Hawliau Marsiandïaeth*

5.27 I'r perwyl hwn:

5.27.1 Bydd S4C a'r Cynhyrchydd yn cysylltu â'i gilydd gan sicrhau bod y ddau barti yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau y gallai fod gan y naill barti a'r llall i ymarfer yr Hawliau Marsiandïaeth;

5.27.2 Bydd S4C yn hysbysu'r Cynhyrchydd cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol yn ymarferol o unrhyw gynlluniau sydd gan S4C i ymarfer yr Hawliau Marsiandïaeth a bydd yn rhoi o leiaf 21 diwrnod o rybudd ymlaen llaw cyn ymrwymo mewn unrhyw ffordd i wneud hynny;

5.27.3 bydd gan y Cynhyrchydd gyfnod ecsgliwsif o 14 diwrnod i ymateb i'r fath hysbysiad gan S4C;

5.27.4 os na fydd y Cynhyrchydd yn ymateb cyn pen y cyfryw gyfnod neu os bydd y Cynhyrchydd yn ymateb cyn pen y cyfryw gyfnod yn nodi nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad, gall S4C symud ymlaen yn y modd a amlinellwyd yn yr hysbysiad;

5.27.5 os bydd y Cynhyrchydd yn ymateb cyn pen y cyfryw gyfnod yn nodi ei fod yn gwrthwynebu, bydd S4C a'r Cynhyrchydd yn trafod y mater mewn ewyllys da;

5.27.6 Os bydd S4C (gan weithredu'n rhesymol) yn derbyn bod cynlluniau S4C yn torri ar draws cynlluniau masnachol y Cynhyrchydd, a bod cynlluniau masnachol y Cynhyrchydd yn realistig ac yn debygol o ddigwydd, ni fydd S4C yn ymarfer yr hawl hon yn y modd yr amlinellwyd yn yr hysbysiad, a bydd yn hysbysu'r Cynhyrchydd o hynny;

5.27.7 Os nad yw S4C (gan weithredu'n rhesymol) yn derbyn y byddai cynlluniau S4C yn torri ar draws cynlluniau masnachol y Cynhyrchydd, neu os na fydd S4C (gan weithredu'n rhesymol) yn derbyn bod cynlluniau masnachol y Cynhyrchydd yn realistig ac yn debygol o ddigwydd, bydd y partïon yn ceisio datrys y mater yn unol â Chymal 2.47.

5.28 Bydd yr Hawliau Clipiau yn cael eu hymarfer yn unol â'r Polisi Clipiau a Deunydd Crai, fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd. *Hawliau Clipiau*

5.29 Bydd yr Hawliau Hyrwyddo yn cael eu hymarfer yn unol â Chymalau 2.13 i 2.22 yn gynwysedig. *Hawliau Hyrwyddo*

5.30 Bydd y Cynhyrchydd ac S4C yn cadw mewn cysylltiad o ran unrhyw ymarfer arfaethedig o'r Hawliau Theatrig a'r Hawliau An-Theatrig. Bydd nifer o'r cyfryw arddangosiadau yn rhad ac am ddim i'r gwyliwr neu mewn cydnabyddiaeth am ffi weinyddol fach a godir gan y trefnydd. Pan fo sgrinio (theatrig neu an-theatrig) yn digwydd ar gais S4C, bydd S4C yn gyfrifol am rag-glirio unrhyw hawliau trydydd parti perthnasol. *Hawliau Theatrig ac An-Theatrig*

5.31 Yn ddarostyngedig i gymal 5.31A isod, bydd gan S4C yr hawl an-ecsgliwsif i enwebu Rhaglen S4C ar gyfer gwobrau ffilm a theledu neu fel arall i gynnig y *Gwyliau Ffilm a Theledu*

rhaglen neu Raglen S4C i'w harddangos neu ei beirniadu mewn unrhyw wŷl ffilm neu deledu neu seremoni wobrwyo.

5.31A Lle mai S4C yw'r prif ariannwr, bydd gan S4C yr hawl ecsgliwsif i enwebu'r Rhaglen neu Raglen S4C ar gyfer unrhyw wobr neu ŵyl. Os bydd S4C yn penderfynu peidio ag enwebu'r Rhaglen, gall y Cynhyrchydd wneud hynny yn amodol ar hysbysu S4C ymlaen llaw.

Hawliau Gweithredu

5.32 Bydd gan S4C yr hawl i gymryd y fath gamau y bydd S4C yn ôl ei disgresiwn yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol er mwyn sicrhau, perffeithio neu ymelwa ar Hawliau S4C neu i atal unrhyw dresmasu sy'n digwydd neu a fwriedir yn erbyn y cyfryw hawliau. Bydd yr hawl hon yn unigryw ac ecsgliwsif mewn perthynas â rheiny o Hawliau S4C sydd yn unigryw ac ecsgliwsif.

5.33 Bydd gan S4C yr hawl i gychwyn a chynnal unrhyw a phob achos neu ymgyfreitha y bydd S4C yn ôl ei disgresiwn llwyr ei hun yn ystyried bod eu hangen er mwyn diogelu unrhyw un o Hawliau S4C heb fod hynny'n amharu ar hawl S4C i ddwyn y Cynhyrchydd fel pleintydd i mewn i unrhyw achos o'r fath, ac mae'r Cynhyrchydd yn cadarnhau na fydd ganddo hawl, teitl na budd mewn unrhyw arian a adenillir gan S4C yn sgil unrhyw achos neu ymgyfreitha o'r fath. Bydd yr hawl hon yn unigryw ac ecsgliwsif mewn perthynas â rheiny o Hawliau S4C sydd yn unigryw ac ecsgliwsif. Bydd S4C yn indemnio'r Cynhyrchydd yn erbyn y ffioedd, y costau a'r treuliau a ddioddefir gan y Cynhyrchydd (i'w cytuno ymlaen llaw) o ganlyniad i ddwyn y Cynhyrchydd i mewn i unrhyw achos o'r fath fel pleintydd, AR YR AMOD na fydd yr indemniad hwn yn weithredol a bydd y Cynhyrchydd yn talu ei gostau ei hun lle y bo S4C wedi gweithredu ei hawliau dan y Cymal hwn oherwydd rhyw dor-cytundeb neu esgeulustod ar ran y Cynhyrchydd.

Cyfamod er Sicrwydd Pellach

5.34 Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i gyflawni unrhyw a phob gweithred a chyflawni unrhyw a phob dogfen yn y fath ffodd ac (wedi derbyn rhybudd rhesymol) yn y cyfryw leoliadau ag y gall S4C eu mynnu yn ôl ei disgresiwn rhesymol, er mwyn diogelu, perffeithio neu orfodi unrhyw un neu rai o Hawliau S4C AR YR AMOD Y BYDD S4C yn ad-dalu'r costau o wneud hynny y cytunwyd arnynt ymlaen llaw i'r Cynhyrchydd (ni ddylai'r naill barti na'r llall atal eu cytundeb yn afresymol).

Hawliau Gwaelodol a Chliriadau

5.35 Fel rhag-amod i ddyletswyddau talu a dyletswyddau eraill S4C dan y Drwydded, mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu ac yn ymrwymo'n ddi-alw'n-ôl ac yn ddiamod y bydd y Cynhyrchydd wedi sicrhau er budd S4C, erbyn Cyfleu, pob hawl, trwydded, cliriad, ildiad, caniatâd a rhyddhad sydd eu hangen mewn perthynas â Rhaglen S4C er mwyn medru ymarfer Hawliau S4C yn rhydd o bob cyfyngiad a llyffethair ac unrhyw Daliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau oni chytunir fel arall yn benodol yn yr Atodiad ac y bydd yr holl hawliau, trwyddedau, cliriadau ac ildiadau hynny a phob caniatâd a rhyddhad (gan gynnwys trwyddedau mewn perthynas â Deunydd Trydydd-bartïon) yn ysgrifenedig mewn perthynas â'r holl ddeunydd a ddefnyddir yng ngwneuthuriad Rhaglen S4C.

5.36 Bydd S4C yn talu unrhyw Daliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau sy'n daladwy i unrhyw gyfrannwr i Raglen S4C neu berchennog hawliau am unrhyw ddefnydd o'u cyfraniadau i Raglen S4C sy'n ychwanegol i'r hyn a gliriwyd ymlaen llaw o

fewn y Ffi Drwydded, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn yr Atodiad. Yn ddarostyngedig i'r Cymal canlynol, y Cynhyrchydd fydd yn gyfrifol am sicrhau bod modd clirio defnydd ychwanegol, a bod cost y cliriadau ychwanegol (a rannwyd fesul cyfryngau a chyfnodau) a'r holl fanylion cyswllt perthnasol, wedi eu darparu fel rhan o'r Wybodaeth am y Rhaglen.

5.37 Wedi'i ddileu.

5.38 Heb amharu ar natur gyffredinol Cymal 5.34, mae'r Cynhyrchydd yn rhoi ac yn cadarnhau'n ddi-alw'n-ôl ac yn ddiamod i S4C ei holynwyr, ei haseineion a'i thrwyddedeion: -

5.38.1 bod yr holl Bersonél wedi aseinio a rhoi'r holl hawliau a chaniatâd yn sgil y Ddeddf a'r holl gyfreithiau eraill sydd mewn grym yn awr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd, y gall fod eu hangen er mwyn medru ymarfer Hawliau S4C, gan gynnwys holl hawliau perchen perfformwyr gan gynnwys yr hawl i wneud ar gael a'r hawliau rhentu a benthyg, yr hawl i gyfathrebu â'r cyhoedd trwy loeren a'r hawliau ad-ddarlledu cebl, a chadarnhad y cyfryw bersonau bod y rhagdybiaethau a gynhwysir yn Adrannau 93A a 191F y Ddeddf yn weithredol i'w cyfraniadau a chadarnhad y cyfryw bersonau bod y tâl a dalwyd iddynt gan y Cynhyrchydd yn "dâl ecwitïol" at ddibenion unrhyw ddeddfwriaeth a weithredir mewn unrhyw wladwriaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n gweithredu Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2006/115/EC o 12 Rhagfyr 2006;

5.38.2 bod yr holl Bersonél wedi ildio yn ddi-alw-yn-ôl a diamod yr holl hawliau mewn perthynas â Rhaglen S4C a'r Deunydd Cyfleu y mae'r cyfryw bersonau ar hyn o bryd neu y gallent fod â'r hawl iddynt yn y dyfodol yn sgil darpariaethau Adrannau 77, 80, 84 ac 85 y Ddeddf ac unrhyw hawliau moesol eraill y gall y cyfryw bersonau fod â hawl iddynt dan unrhyw ddeddfwriaeth sydd mewn grym yn awr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd;

5.38.3 yr hawl i ddefnyddio enw, tebygrwydd gweledol a bywgraffiad yr holl bersonau sy'n cyfrannu at Raglen S4C mewn cyhoeddusrwydd ar gyfer Rhaglen S4C ac mewn cyhoeddusrwydd corfforaethol.

5.39 Bydd gan S4C yr hawl yn syth ar gais i gymeradwyo unrhyw ddogfennau a chytundebau ymlaen llaw ac i dderbyn copïau o unrhyw a phob cytundeb sydd wedi ei arwyddo mewn perthynas â Rhaglen S4C. Gall y Cynhyrchydd gelu gwybodaeth ariannol neu wybodaeth sensitif o'r fath gytundebau gorffenedig sy'n wybodaeth sydd yn gyfrinachol ar yr amod bod yr hawliau a roddir i S4C gan y Cynhyrchydd ac a roddwyd i'r Cynhyrchydd yn parhau i fod yn eglur. *Cadwyn Teitl*

5.40 Wedi iddo dderbyn cymeradwyaeth S4C i unrhyw gytundeb mewn perthynas â Rhaglen S4C, ni fydd y Cynhyrchydd wedi hynny yn diwygio neu'n amrywio'r cyfryw gytundeb heb gymeradwyaeth pellach S4C. Ni ystyrir unrhyw gymeradwyaeth gan S4C neu ymwneud gan S4C â pharatoi unrhyw gytundeb neu wirio'r hawliau gwaelodol neu gynnwys rhaglen ar ran S4C fel ildiad gan S4C ac

ni thybir ei fod yn gwneud S4C yn wybyddus o unrhyw dorri neu ddiffyg cyflawni gan y Cynhyrchydd o'i oblygiadau dan ddarpariaethau'r Drwydded. Mae uned gyfreithiol S4C yn cynrychioli buddiannau S4C. Er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau, dylai'r Cynhyrchydd geisio sicrhau cyngor cyfreithiol annibynnol lle bo hynny'n briodol.

5.41 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu ac yn ymrwymo bod y gost a ddyrennir i Ddeunydd Trydydd Parti yn y Gyllideb yn rhagamcangyfrif gwirioneddol yn seiliedig ar wybodaeth a chred resymol y Cynhyrchydd. Os bydd gorwariant neu danwariant yn ymwneud â Deunydd Trydydd Parti, darpariaethau cymalau 4.20 i 4.21A (fel y bo'n berthnasol) fydd yn gymwys.

Ymelwa

5.42 Mae pob hawl yn ac i'r Rhaglen, Rhaglen S4C, y Fformat, y Deunydd Crai, y Deunydd Hawliau Gwaelodol ac unrhyw ddeunydd atodol nas rhoddwyd i S4C dan y Drwydded yn eiddo llwyr y Cynhyrchydd. Yn ddarostyngedig i Hawliau S4C a'r Ataliadau, gan y Cynhyrchydd yn unig y mae'r hawl i Ymelwa ar y Rhaglen.

Enillion Net

5.43 Telir i S4C gyfran o'r Enillion Net a dderbynnir gan y Cynhyrchydd o Ymelwa. Oni nodir fel arall yn y Briff Golygyddol a Busnes, bydd cyfran S4C o'r Enillion Net fel a ganlyn:

(a) pan fo S4C yn ariannu rhaglen beilot boed yn llawn neu'n rhannol fel rhan o'r gwaith datblygu: 20%
(b) pan nad yw S4C yn ariannu rhaglen beilot mewn unrhyw ffordd: 15%

5.43A Bydd yr Enillion Net a dderbynnir gan S4C o ymelwa ar yr Hawliau Eilaidd yn cael eu rhannu fel y cytunir ar sail achosion unigol (neu, os methir dod i gytundeb, fel y gellir penderfynu yn unol â Chymal 2.47).

5.43B Bydd unrhyw incwm y bydd S4C yn ei dderbyn o ymarfer Hawliau S4C yn berchen yn llwyr i S4C ac ni fydd disgwyl i S4C roi cyfrif amdano.

Talu

5.44 Telir yr holl arian sy'n ddyledus i'r naill barti gan y llall yn unol â Chymal 5.42 cyn pen trigain (60) diwrnod o ddiwedd y Chwarter y'i derbyniwyd gan y sawl a'i derbyniodd.

Datganiadau

5.45 Bydd y naill barti yn anfon i'r llall cyn pen trigain (60) diwrnod o ddiwedd pob Chwarter, ddatganiad o'r arian (os o gwbl) sy'n daladwy i'r llall parthed y Chwarter hwnnw. Bydd datganiadau yn cynnwys dadansoddiad o holl ffynonellau'r Incwm Gros. Os nad oes unrhyw symiau yn ddyledus i'r llall mewn perthynas ag unrhyw Chwarter, bydd y naill barti yn hysbysu'r llall na fydd yn anfon unrhyw ddatganiadau pellach nes ar ôl y Chwarter nesaf (os o gwbl) pan ddaw symiau'n ddyledus. Os na fydd unrhyw arian wedi ei dalu am gyfnod o bedwar Chwarter yn olynol, yna bydd disgwyl i'r parti perthnasol wedi hynny ddarparu datganiad i'r llall mewn perthynas ag unrhyw Chwarter pan fydd arian wedi ei ennill yn unig. Bydd gan y naill barti a'i gynrychiolwyr, a/neu'r cyfrifwyr a benodwyd ganddo, yr hawl i archwilio holl lyfrau cyfrifon perthnasol y llall neu unrhyw asiant neu is-ddosbarthwr a benodir gan y llall, a bydd ganddo'r hawl i ofyn am archwiliad manwl (ar ei gost ei hun) o'r cyfrifon hynny yn ystod oriau busnes arferol, a hynny wedi rhoi rhybudd rhesymol. Lle bo'r fath archwiliad neu archwiliad manwl yn datgelu bod unrhyw daliad gan y Cynhyrchydd wedi bod yn rhy isel o dros ddeg (10%) y cant, yna bydd y parti sydd wedi talu rhy ychydig yn

talu'r treuliau proffesiynol rhesymol a ddioddefwyd gan y parti arall wrth gyflawni'r fath archwiliad neu archwiliad manwl.

Cymal 6 – Gwarantau ac Indemniadau

6.1 Mae'r Cynhyrchydd yn datgan, yn gwarantu, yn gwarantebu ac yn ymrwymo ag S4C yn y fath fodd ag y bydd i'r cyfryw ddatganiadau, gwarantau, gwarantebau ac ymrwymiadau (boed dan y Cymal hwn neu mewn mannau eraill yn y Drwydded) barhau i fod mewn grym a bod ag effaith lawn wedi Cyfleu Rhaglen S4C:-

6.1.1 y gwneir ac y cynhyrchir Rhaglen S4C a'r holl Ddeunydd Cyfleu i'r safon ddramatig ac artistig uchaf o ran cynnwys ac i safon dechnegol a llun yn addas i'w Darlledu ar deledu heb orfod gwario mwy na gwneud gwaith pellach arnynt ac yn unol â'r Canllawiau a Pholisïau a'r holl gyfreithiau, rheolau a rheoliadau perthnasol a holl elfennau'r Atodiad ac ni amrywir y rhain gan y Cynhyrchydd heb ganiatâd ysgrifenedig S4C, y mae'r partïon yn cytuno eu bod yn sylfaenol i gynhyrchu Rhaglen S4C;

6.1.2 mae'r Cynhyrchydd yn derbyn mai'r Cynhyrchydd yn unig sy'n gyfrifol am yr holl gostau o gynhyrchu Rhaglen S4C a chaffael Hawliau S4C uwchlaw'r Ffi Drwydded;

6.1.3 na fydd dim a gynhwysir yn Rhaglen S4C nac unrhyw ymarfer ar Hawliau S4C yn tarfu ar unrhyw hawliau confensiwn fel y'u diffinnir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 ("Hawliau'r Confensiwn") unrhyw unigolyn nac yn tresmasu ar unrhyw hawlfraint, nod masnachu, hawl preifatrwydd, hawl cyhoeddusrwydd nac unrhyw hawl arall o unrhyw fath arall sy'n perthyn i unrhyw berson, ac na fydd yn anllad nac yn enllibus, yn gableddus nac yn absennus, nac yn torri darpariaethau unrhyw statudau (gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a thriniaeth deg), rheoliadau neu orchmynion;

6.1.4 wrth gyflawni ei oblygiadau dan y Drwydded, bydd y Cynhyrchydd ar bob adeg yn cymryd ystyriaeth o Hawliau'r Confensiwn pob trydydd-barti, ac ni fydd yn gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws ag unrhyw un o Hawliau'r Confensiwn;

6.1.5 y Cynhyrchydd yw neu a fydd yr unig berson sydd wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu Rhaglen S4C ac y bydd y Cynhyrchydd a phrif gyfarwyddwr Rhaglen S4C ar y naill law yn 'bersonau cymwys' ar bob adeg briodol yn ystod cyfnod cynhyrchu Rhaglen S4C o fewn ystyr adran 154 y Ddeddf a bod y prif gyfarwyddwr wedi aseinio ei holl fudd yn yr hawlfraint yn ac i Raglen S4C i'r Cynhyrchydd yn rhydd o bob llyffethair;

6.1.6 nad oes unrhyw lien, hawliad, achos na chyfreithiad yn yr arfaeth neu wedi'u bygwth sydd yn effeithio ar neu'n ymwneud â Rhaglen S4C na Hawliau S4C, na theitl gwirioneddol neu weithredol Rhaglen S4C;

6.1.7 ni fydd y Cynhyrchydd yn gwystlo nac yn llyffetheirio mewn unrhyw ffordd arall, Raglen S4C nac yn creu unrhyw lien dros Raglen S4C ar wahân i'r hyn sy'n digwydd yng nghwrs arferol busnes. Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu ei fod neu y bydd erbyn Cyfleu, yn unig berchennog cyfreithiol a llesiannol Hawliau S4C ar sail ecsgliwsif oni bai bod uned gyfreithiol S4C yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig;

6.1.8 y bydd y Cynhyrchydd yn bwrw iddi i wneud Rhaglen S4C yn ddyfal, a heb oedi'n afresymol, gan dalu sylw i'r Dyddiad Cyfleu, y Cerrig Milltir a safon y gwaith sy'n ofynnol dan a holl ddarpariaethau eraill y Drwydded;

6.1.9 wrth gyflawni ei oblygiadau dan y Drwydded, bydd y Cynhyrchydd, wrth ddelio â'r cyhoedd, yn parchu egwyddorion Canllawiau Iaith Gymraeg S4C; Polisi Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chyfle Cyfartal S4C; (ar gael ar y Wefan Gynhyrchu) ac Ymrwymiad Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C (ar gael ar wefan S4C);

6.1.10 pan fo aelodau'r cyhoedd yn gofyn am gopi o'r Rhaglen, bydd y Cynhyrchydd yn delio â phob cais o'r fath yn unol â gofynion rhesymol S4C;

6.1.11 bydd y Cynhyrchydd yn cydymffurfio â'i holl ymrwymiadau dan y Drwydded.

6.2 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu na fydd Rhaglen S4C yn Ddirmyg Llys dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981 (y cyfeirir ati fel "Deddf 1981" yn y Cymal hwn a'r ddau Gymal canlynol). *Dirmyg Llys*

6.2A Os bydd achos o Ddirmyg Llys yn cael ei ddwyn dan Ddeddf 1981 yn erbyn S4C, ei swyddogion, ei gweision neu ei hasiantau, neu aelodau Awdurdod S4C, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol a allai fod yn ei feddiant, neu a fydd o fewn ei rym a'i reolaeth, ar gael ar unwaith i S4C at ddiben ymdrin ag achos o'r fath, cyn belled nad oes gorfodaeth ar y Cynhyrchydd i fynnu bod unrhyw un o'i weithwyr yn datgelu ffynonellau gwybodaeth heblaw ac i'r graddau y darperir ar gyfer hynny yn Neddf 1981, ac yn dilyn gorchymyn dan Ddeddf 198l.

6.3 Mae'r ddau barti yn cytuno ac yn ymrwymo i roi indemniad llawn i'w gilydd ac i sicrhau bod yr indemniad hwnnw'n aros mewn grym bob amser, rhag ac yn erbyn pob colled (gan gynnwys ond heb gyfyngiad unrhyw golli incwm neu golled economaidd arall), treuliau, hawliad, archeb, achos, cyfreitha, cost, iawndal neu daliadau eraill a ddioddefir, a fydd yn codi neu a ddyfernir ynghyd ag unrhyw iawndal y cytunir arno neu unrhyw atebolrwydd o ba bynnag natur neu o ble bynnag sy'n codi o ganlyniad i unrhyw dorri ar neu fethiant i gadw at unrhyw un neu bob un o'r addewidion, ymrwymiadau neu warantau ar ei ran a gynhwysir yn y Drwydded neu sy'n deillio mewn unrhyw ffordd o gynnwys llafar neu weladwy Rhaglen S4C neu o ganlyniad i unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu anghyfreithlon neu esgeulustod ar ei ran neu gan ei weithwyr, ei asiantau, ei weithwyr llawrydd, ei isgontractwyr, neu ei wahoddedigion gan gynnwys (ond heb gyfyngiad), hawliadau gan berchnogion hawliau, cyfranwyr i Raglen S4C neu'r Personél. *Indemniad*

6.4 Bydd dyletswydd ar y naill barti a’r llall i gymryd camau rhesymol i leihau neu liniaru unrhyw golled y bo’n ei ddioddef. *Dyletswydd i leihau neu liniaru colled*

Cymal 7 - Cymryd Drosodd a Chanlyniadau Cymryd Drosodd

7.1 Heb wneud niwed i hawliau S4C i derfynu'r Drwydded yn unol â chymal 8.2 isod, bydd gan S4C yr hawl i gymryd drosodd y broses o gynhyrchu'r Rhaglen ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd ei bod yn dewis gwneud hynny (ond ni fydd rheidrwydd arni i wneud hynny):

7.1.1 os bydd cyfanswm y gwariant a'r rhwymedigaethau a gafwyd ac sy'n gysylltiedig gyda chynhyrchu'r Rhaglen ar unrhyw adeg ym marn S4C, yn uwch na swm sy'n rhesymol ar gyfer y cyfnod cynhyrchu y mae'r Rhaglen wedi cyrraedd, neu mae'r gwaith o gynhyrchu'r Rhaglen ar ei hôl hi yn sylweddol o'i gymharu gyda'r amserlen gynhyrchu a gymeradwywyd gan S4C, ym marn S4C;

7.1.2 os na fydd y Cynhyrchydd yn llwyddo i gydymffurfio gydag unrhyw gyfarwyddiadau y mae gan S4C yr hawl i'w rhoi dan y Drwydded, ac nad yw'n cywiro methiant o'r fath cyn pen y cyfnod a nodir yn ysgrifenedig gan S4C, y cyfryw gyfnod amser i fod yn rhesymol, o ystyried yr amser sy'n cael ei neilltuo i gyflawni cyfarwyddiadau o'r fath yn y Drwydded hon a/neu yn yr amserlen gynhyrchu a chan ystyried gofynion cyfleu S4C;

7.1.3 os na fydd unrhyw rai o'r Personél Allweddol neu'r cyfarwyddwr ar gael am unrhyw reswm, neu os byddant yn gwrthod neu'n methu cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r Rhaglen neu os na fydd unrhyw elfen allweddol arall ar gael ac os na fydd y Cynhyrchydd, cyn pen 10 diwrnod gwaith o'r adeg pan ddaeth yn ymwybodol o'r ffaith bod unrhyw rai o'r digwyddiadau posibl uchod wedi digwydd, wedi gallu cytuno yn ysgrifenedig gydag S4C ar rywun i gymryd lle unrhyw berson o'r fath o fewn y Personél Allweddol neu'r cyfarwyddwr neu unrhyw elfen allweddol;

7.1.4 os bydd y Cynhyrchydd yn destun newid o ran trefniadau rheoli sy'n anffafriol i S4C ym marn S4C; a/neu

7.1.5 os bydd rhywbeth wedi digwydd a fyddai'n rhoi'r hawl i S4C derfynu'r Drwydded hon yn unol â chymal 8 (“Methiant Cyflawni”) neu sy'n debygol o ddigwydd ym marn resymol S4C.

7.2 Os bydd S4C yn dewis cymryd drosodd y broses o gynhyrchu'r Rhaglen:

7.2.1 ar ôl didynnu unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Cynhyrchydd yn unol â Chymal 7.2.2 isod, bydd unrhyw symiau y mae'r Cynhyrchydd yn eu dal at ddibenion y Drwydded ar yr adeg derfynu yn cael eu had-dalu gan y Cynhyrchydd i'r S4C os gofynnir a bydd y Cynhyrchydd yn

darparu datganiad manwl ynghylch yr incwm a'r gwariant tan y dyddiad terfynu i S4C ar unwaith, a fydd yn nodi manylion llawn yr holl ddyledion heb eu talu, a'r holl ymrwymiadau sy'n weddill, na chafwyd anfonebau amdanynt;

7.2.2 bydd S4C yn talu'r Cynhyrchydd am yr holl waith a wnaethpwyd gan y Cynhyrchydd yn unol â bodlonrwydd rhesymol S4C ac yn unol ag amodau'r Drwydded tan y Dyddiad Cymryd Drosodd (fel y diffinnir yng nghymal 7.2.11 isod). (Bydd hyn yn cynnwys symiau rhesymol o ran gorbenion (i'w cytuno rhwng y partïon neu, os na cheir cytundeb, i'w datrys yn unol â'r weithdrefn a nodir yng Nghymal 2.47);

7.2.3 o gael cais o'r fath, bydd y Cynhyrchydd yn darparu manylion llawn i S4C yn syth ynghylch yr holl drwyddedau neu unrhyw gytundebau hawliau eraill yr ymrwymwyd iddynt gyda thrydydd partïon mewn cysylltiad gyda Manteisio ar y Rhaglen;

7.2.4 bydd gan S4C yr hawl i ymgymryd â'r oruchwyliaeth a'r rheolaeth dros wneud y Rhaglen a/neu i benodi ac i ymrwymo i gontract gydag unrhyw drydydd parti i gwblhau'r gwaith o gynhyrchu'r Rhaglen ac ni fydd gan y Cynhyrchydd unrhyw hawliau neu fuddiannau yn y gwaith parhaus o gynhyrchu'r Rhaglen;

7.2.5 mae'r Cynhyrchydd yn penodi ac yn sefydlu yn ddi-alw'n-ôl mai S4C yw ei atwrnai mewn gwirionedd sy'n meddu ar y grym llawn o ran cyfnewid a diddymu yn enw'r Cynhyrchydd (y mae ei benodiad yn cyd-fynd gyda budd yn unol â darpariaethau Deddf Pwerau Atwrnai 1971) a gyda disgresiwn llwyr a gyda grym ac ar ran y Cynhyrchydd i arfer neu ei aseinio unrhyw hawl y Cynhyrchydd (boed hynny dan gontract neu fel arall) sy'n berthnasol i'r broses o gynhyrchu'r Rhaglen (gan gynnwys er mwyn osgoi amheuaeth, budd unrhyw gontract sy'n ymwneud gyda darpariaethau cyllid cynhyrchu trydydd parti) a'r holl weithredoedd a'r pethau sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi effaith lawn neu bellach i ddarpariaethau'r Drwydded hon ac i weithredu'r holl weithredoedd, dogfennau ac offerynnau pellach o'r fath yn enw ac ar ran y Cynhyrchydd os na fydd y Cynhyrchydd yn gwneud hynny cyn pen cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg (14) ar ôl cael cais perthnasol gan S4C.

7.2.6 bydd y Cynhyrchydd yn aseinio i S4C gyda gwarant teitl llawn yr hawlfraint cyfan gwbl ym mhob iaith ym mhob cyfrwng (boed yn hysbys nawr neu a gaiff eu dyfeisio wedi hyn) ar draws y Cyfanfyd (gan gynnwys yr holl hawliau i adnewyddu ac ymestyn hawlfreintiau) yn y Rhaglen ac unrhyw Ddeunydd Hawliau Sylfaenol

7.2.7 bydd y Cynhyrchydd yn trosglwyddo i S4C deitl cyfreithiol yn yr holl asedau a brynir gan y Cynhyrchydd gan ddefnyddio'r arian a dalwyd ymlaen llaw gan S4C i'r Cynhyrchydd mewn perthynas â'r Rhaglen, gan gynnwys, ond heb fod wedi'i gyfyngu i unrhyw un a phob set, gwisg, offer, prop, meic, golygfa a llwyfan sain;

7.2.8 bydd y Cynhyrchydd yn rhoi at ddefnydd S4C a dan ei rheolaeth, y Cyfrif Banc (ac er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd gan y Cynhyrchydd yr hawl i dynnu sieciau o'r Cyfrif Banc) a'r holl bersonau a'r offer a ddefnyddir gan y Cynhyrchydd mewn cysylltiad gyda'r Rhaglen;

7.2.9 bydd y Cynhyrchydd yn trosglwyddo'r Rhaglen i S4C ar unwaith, gan dalu'r gost gyfan gwbl o wneud hyn, beth bynnag fo'r pwynt y mae wedi cyrraedd o ran ei chwblhau, ynghyd â'r holl eiddo ffisegol, cyfleusterau, cyflenwadau, offer a dogfennau sy'n gysylltiedig gyda'r Rhaglen;

7.2.10 bydd y Cynhyrchydd yn cyflawni ac yn cadw at ei holl gytundebau a'i rwymedigaethau sy'n gysylltiedig gyda'r Rhaglen a/neu unrhyw rannau sylfaenol neu gyfansoddol o'r Rhaglen er budd S4C neu unrhyw gwmni a enwebir gan S4C;

7.2.11 ar gais S4C, bydd y Cynhyrchydd yn gweithredu dosbarthiad ffurfiol o blaid S4C o ran budd unrhyw gytundebau a wneir gan y Cynhyrchydd ac sy'n berthnasol i greu'r Rhaglen; bydd y Cynhyrchydd yn indemnio S4C yn llawn yn erbyn atebolrwydd i unrhyw barti arall sy'n codi o unrhyw achos o dorri contractau o'r fath gan y Cynhyrchydd neu unrhyw weithred neu ddiffyg gan y Cynhyrchydd cyn y Dyddiad Cymryd Drosodd. At ddibenion cymalau 7.2.2 a 7.2.11 mae "Dyddiad Cymryd Drosodd" yn golygu'r dyddiad go iawn y mae S4C neu ei enwebai yn cymryd drosodd y Cynhyrchu mewn gwirionedd, ac nid dyddiad yr hysbysiad o unrhyw fwriad i gymryd drosodd;

7.2.12 os bydd cyfanswm y gost resymol i S4C o gwblhau Rhaglen S4C yn unol â'r Drwydded yn uwch na Ffi'r Drwydded, telir y gost resymol ychwanegol gan y Cynhyrchydd i S4C naill ai trwy ddidynnu unrhyw arian a dalwyd gan S4C i'r Cynhyrchydd neu fel dyled arferol a delir yn dilyn cais i'w thalu; ac

7.3 Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn, Cymal 7, yn cael ei ddehongli er mwyn cyfyngu neu amharu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill y gallai fod gan S4C dan y Drwydded hon yn ôl y gyfraith neu mewn ecwiti oherwydd unrhyw gam gan y Cynhyrchydd i dorri unrhyw rai o'i warantau, ei ymgymeriadau neu ei rwymedigaethau dan y Drwydded hon

<u>Cymal 8 - Tymor a Darpariaethau Terfynu</u>

8.1 Oni bai y'i terfynir yn gynnar yn unol â'i thelerau, bydd y Drwydded yn parhau am hyd Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded. *Cyfnod y Drwydded*

8.2 Yn ddiragfarn i unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill sydd gan y parti perthnasol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'w hawliau dan Gymal 6.3 y Drwydded ac unrhyw hawliau terfynu rywle arall yn y Drwydded: *Terfynu*

8.2.1 gellir terfynu'r Drwydded yn ddiannod yn llwyr neu'n rhannol:

(a) gan y naill barti os bydd y llall yn torri unrhyw un o'i ymrwymiadau dan y Drwydded nad oes modd ei gywiro neu os oes modd ei gywiro, nad yw'n cael ei gywiro cyn pen 7 diwrnod (neu'r fath gyfnod hirach ag a gytunir gan y partïon) o dderbyn rhybudd ysgrifenedig oddi wrth y naill yn mynnu bod y tor-amod yn cael ei gywiro; neu

(b) gan S4C os oes newid yn rheolaeth y Cynhyrchydd (fel y diffinnir 'rheolaeth' yn adran 1124 y Ddeddf Trethi Corfforaethol 2010) sy'n peryglu statws y Cynhyrchydd fel cynhyrchydd annibynnol ym marn resymol S4C; neu

(c) gan S4C am ba bynnag reswm na fydd unrhyw elfen a bennir yn yr Atodiad ar gael neu na ellir ei ddefnyddio'n rhesymol ac ni all y Cynhyrchydd sicrhau eilydd sy'n dderbyniol i S4C.

(ch) gan S4C yn unol â chymal 9.6.

8.2.2 Yn ddarostyngedig i Gymal 8.2.3 gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Drwydded yn ddiannod os yw'r llall yn Ansolfent, ac at ddibenion y Cymal 7.2.2 hwn bydd "Ansolfent" yn golygu un o'r canlynol:

(a) ac eithrio mewn perthynas ag ad-drefniad solfent o fusnes y llall a gymeradwywyd o flaen llaw gan y parti arall (gan weithredu'n rhesymol) cyflwyno deiseb neu alw cyfarfod at ddibenion ystyried cynnig i ddirwyn i ben neu i ddiddymu'r llall, derbyn cynnig i ddirwyn y llall i ben neu wneud gorchymyn i ddirwyn y llall i ben neu orchymyn i ddiddymu'r llall;

(b) penodiad gweinyddwr, cofnodi dogfennau gyda'r llys er mwyn penodi gweinyddwr neu roi rhybudd o'r bwriad i benodi gweinyddwr gan y llall, gan ei gyfarwyddwyr neu gan ddaliwr arwystl ansefydlog cymwysedig (fel y'i ddiffinnir ym mharagraff 14 o Atodlen B1 i Ddeddf Ansolfedd 1986);

(c) penodiad derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, derbynnydd a rheolwr, secwestrydd neu swyddog tebyg dros holl neu unrhyw gyfran allweddol o asedion neu fusnes y llall neu gyflwyno deiseb gan y llall neu gan ei gyfarwyddwyr, cyfranddalwyr neu ei gredydwyr ar gyfer gorchymyn i benodi gweinyddwr, neu wneud gorchymyn i benodi gweinyddwr mewn perthynas â'r llall;

(ch) y cynnig gan y llall neu gan gredydwyr neu gyfranddalwyr y llall neu ddiddymwr y llall i wneud, y cais am neu ymrwymo i gyfaddawd neu ddealltwriaeth neu drefniant gwirfoddol, neu unrhyw gynllun, cyfamod neu drefniant arall i fodloni neu gyfrandalu unrhyw rai o ddyledion y llall neu drefniant arall er budd credydwr y llall yn gyffredinol neu gyfran sylweddol o'i gredydwyr neu o'i gyfranddalwyr;

(d) lle bo unrhyw gredydwr boed wedi ei ddiogelu gan arwystl neu fel arall yn cymryd meddiant o neu'n atafaelu yn erbyn neu'n gweithredu rhyw broses arall dros yr holl neu ran allweddol o eiddo, asedion neu fusnes y llall;

(dd) lle bernir na all y llall dalu'i ddyledion o fewn ystyr Adran 123 Deddf Ansolfedd 1986;

(e) lle bo'r llall yn rhoi'r gorau i gynnal y cyfan neu ran helaeth o'i fusnes;

(f) lle bo'r llall yn gohirio talu cyfran sylweddol o'i ddyledion neu'n methu neu'n esgeuluso i dalu cyfran sylweddol o'i ddyledion wrth iddynt godi'n ddyledus; neu

(ff) lle bo unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiad sy'n debyg i unrhyw un o'r cyfryw amgylchiadau y cyfeirir atynt yn (a) i (f) uchod yn digwydd mewn perthynas â'r llall o fewn unrhyw awdurdodaeth heblaw am Loegr a Chymru;

8.2.3 Ni fydd gan y Cynhyrchydd yr hawl i derfynu'r Drwydded dan Gymal 8.2.2 os oes yna olynydd i S4C neu os gwnaed cyhoeddiad swyddogol gan y llywodraeth y bydd olynydd i S4C sydd â chylch gorchwyl neu bwerau sy'n cynnwys darlledu rhaglenni yn yr iaith Gymraeg. Yn ddarostyngedig i'r rhag-amodau bod (1) y Cynhyrchydd wedi derbyn pob swm sy'n ddyledus iddo yn ddilys dan y Drwydded hyd at y terfynu; a (2) bod y Cynhyrchydd yn rhesymol fodlon ar y trefniadau ariannol ar gyfer talu unrhyw symiau sy'n weddill i'r Cynhyrchydd dan y Drwydded, bydd y Cynhyrchydd ar gais S4C neu unrhyw gorff llywodraethol neu reoleiddiwr perthnasol yn cyflawni'r fath weithredoedd ac yn arwyddo'r fath ddogfennau ag sydd eu hangen i freinio Hawliau S4C yn y fath olynydd.

8.3 Heb amharu ar hawliau cyfreithiol y partïon, bydd canlyniadau terfynu'r Drwydded fel y pennir isod. *Canlyniadau Terfynu*

8.4 Os bydd y Drwydded hon yn cael ei therfynu gan y Cynhyrchydd ar ôl i S4C dorri ei rhwymedigaethau yn unol â chymal 8.2.1(a), bydd S4C yn talu'r Cynhyrchydd am yr holl waith go iawn a chywir a gyflawnwyd gan y Cynhyrchydd ac a oedd yn unol â bodlonrwydd rhesymol S4C, yn unol ag amodau'r Drwydded, hyd y dyddiad terfynu. Bydd hyn yn cynnwys symiau rhesymol o ran gorbenion ac elw (i'w cytuno rhwng y partïon neu os na cheir cytundeb, i'w datrys yn unol â'r weithdrefn a nodir yng Nghymal 2.47).

8.5 Os bydd S4C yn dewis yn ôl ei disgresiwn llwyr i beidio cymryd drosodd y gwaith o gynhyrchu'r Rhaglen yn unol â'i hawliau yng nghymal 7 ac i derfynu'r Drwydded hon yn unol â chymalau 8.2.4 a 9.6 bydd y Cynhyrchydd, o gael cais, yn rhoi ad-daliad i S4C o'r holl symiau a dalwyd ymlaen llaw gan S4C i'r Cynhyrchydd mewn perthynas â'r Rhaglen, ynghyd â llog ar gyfradd o 3% uwchben cyfradd sylfaenol LIBOR i'w gronni o ddyddiad y taliad ymlaen llaw i'r dyddiad ad-dalu ONI BAI bod y Cynhyrchydd ac S4C yn cytuno y bydd S4C yn talu'r Cynhyrchydd am yr holl waith a gyflawnwyd gan y Cynhyrchydd mewn gwirionedd ac mewn ffordd gywir, yn unol â bodlonrwydd S4C ac yn unol ag amodau'r Drwydded, tan y dyddiad terfynu. Bydd hyn yn cynnwys symiau rhesymol mewn perthynas â gorbenion (i'w cytuno rhwng y partïon neu, os na cheir cytundeb, i'w datrys yn unol â'r weithdrefn a nodir yng Nghymal 2.47) ac wrth ystyried taliad o'r fath, bydd y Cynhyrchydd:

8.5.1 yn aseinio i S4C gyda gwarant teitl llawn, yr hawlfraint cyfan gwbl ym mhob iaith ym mhob cyfrwng (sy'n hysbys nawr neu a fydd yn cael eu dyfeisio wedi hyn) ar draws y Cyfanfyd (gan gynnwys yr holl hawliau sy'n ymwneud gydag adnewyddu ac ymestyn hawlfreintiau) yn y Rhaglen ac unrhyw Ddeunydd Hawliau Sylfaenol; ac

8.5.2 yn trosglwyddo'r teitl cyfreithiol ym mhob agwedd a brynir gan y Cynhyrchydd gan ddefnyddio'r arian a dalwyd ymlaen llaw gan S4C i'r Cynhyrchydd mewn cysylltiad gyda'r Rhaglen gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i unrhyw un a phob set, gwisg, offer, prop, meic, golygfa a llwyfan sain.

8.6 Bydd yr holl gymalau sydd eu hangen er mwyn dehongli a gweithredu'r Drwydded, ynghyd â'r holl Gymalau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, yr indemniad a'r DdRhG yn goroesi terfynu'r Drwydded neu ei dirwyn i ben trwy dreigl amser.

Cymal 9 – Darpariaethau Cyffredinol

9.1 Mae'r Drwydded yn bersonol i'r Cynhyrchydd ac ni fydd y Cynhyrchydd hyd nes Cyfleu yn aseinio'r budd ohoni nac unrhyw oblygiadau sy'n deillio ohoni heb ganiatâd ysgrifenedig S4C, a bydd gan S4C yr hawl i wrthod y caniatâd hwnnw yn ôl ei disgresiwn rhesymol ei hun (ac eithrio lle bo'r aseiniad i Gwmni Teulu arall pan ni fydd S4C yn gwrthod ei chaniatâd yn afresymol). Yn dilyn unrhyw aseiniad, bydd y Cynhyrchydd yn parhau yn atebol am unrhyw dorri ar y Drwydded gan ei aseinai. *Aseiniad*

9.2 Ni fydd y Cynhyrchydd yn rhoi i unrhyw barti arall unrhyw hawl, trwydded, cydsyniad na chaniatâd a allasai darfu ar neu wanhau unrhyw un o Hawliau S4C neu unrhyw fudd a roddwyd i S4C. Ni fydd S4C yn rhoi i unrhyw barti arall unrhyw hawl, trwydded, cydsyniad na chaniatâd a allasai darfu ar neu wanhau unrhyw un o hawliau'r Cynhyrchydd.

9.3 Bydd gan S4C yr hawl i drwyddedu neu aseinio budd Hawliau S4C a lle bo S4C yn ystyried hynny'n briodol, bydd yn hysbysu'r Cynhyrchydd o'r cyfryw is-drwyddedu neu aseiniad. Yn dilyn unrhyw aseiniad, bydd S4C yn parhau yn atebol am unrhyw dorri ar y Drwydded gan ei aseinai.

9.4 Ystyr "Force Majeure" yw unrhyw amgylchiadau nad ydynt o fewn rheolaeth resymol parti, sy'n atal, yn llesteirio neu'n oedi'r ffaith bod y parti hwnnw'n cadw at neu'n cyflawni ei ymrwymiadau o dan hyn, gan gynnwys, heb gyfyngiad: tân, llifogydd, trychinebau naturiol, terfysg, gweithred ddwyfol, epidemig neu bandemig, terfysgaeth neu ei ganlyniadau, cwymp adeiladau, gweithredu unrhyw Ddeddf Seneddol neu gyfarwyddyd gan Ofcom neu unrhyw reoleiddiwr perthnasol arall neu unrhyw ddigwyddiad a gyfyd o ryfel neu wrthdaro arfog (yn cynnwys, ond nid fel cyfyngiad, unrhyw gyfyngu a orfodir gan y Llywodraeth ar wasanaethau teledu cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, neu ariannu'r gwasanaethau hynny). *Force Majeure*

9.5 Os digwydd gweithred o Force Majeure, bydd y parti yr effeithir arno ganddo'n rhybuddio'r llall yn ddi-oed mewn ysgrifen a, chyhyd ag y bo'r anallu i gadw at neu i gyflawni'r ymrwymiadau dan y Drwydded yn deillio o'r weithred honno o Force Majeure yn unig, ystyrir bod gweithredu'r ymrwymiadau yr effeithir arnynt yn cael ei ohirio o ddyddiad y cyfryw rybudd nes cael gwared ar y cyfryw anallu neu nes y terfynir y Drwydded neu nes y cymerir drosodd y cynhyrchiad. Mae'r ddau barti'n cytuno i ddefnyddio pob ymdrech resymol i leihau a chwtogi unrhyw gyfnod o oedi, a'r holl gostau a threuliau a gyfyd o achos o Force Majeure. Yn ystod unrhyw gyfnod o oedi o'r fath, ni fydd unrhyw ddyletswydd ar S4C i dalu unrhyw arian i'r Cynhyrchydd.

9.6 Os bydd y gwaith o greu neu Gyfleu Rhaglen S4C yn cael ei oedi yn sylweddol oherwydd achos o Force Majeure, o ystyried yr amser a'r dyddiad y bwriadwyd darlledu Rhaglen S4C, caiff S4C (ond ni fydd o dan unrhyw rwymedigaeth i'w wneud) gymryd unrhyw gamau ac i fynnu bod y Cynhyrchydd yn cymryd unrhyw gamau rhesymol y bydd S4C yn eu hystyried yn briodol er mwyn cwblhau Rhaglen S4C a/neu leihau'r cyfnod o oedi a/neu'r golled ariannol sy'n deillio ohono. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd yn ofynnol i S4C dalu unrhyw symiau sy'n uwch na'r Ffi Drwydded y cytunwyd arni a bydd darpariaethau cymal 4.20-4.21A yn gymwys. Fel arall, gall S4C derfynu'r Drwydded (naill ai mewn perthynas â Rhaglen S4C yn ei chyfanrwydd neu mewn perthynas â'r Bennod (neu Benodau) ohoni yr effeithiwyd arni/arnynt) neu weithredu ei hawl i gymryd drosodd y cynhyrchiad.

9.7 Heb gyfyngu ar hawl y naill barti neu'r llall i wrthgyfrif dan gyfraith gwlad, bydd gan y ddau barti'r hawl i osod yr holl arian sy'n ddyledus gan y llall iddo o bryd i'w gilydd neu fel arall y mae ganddo'r hawl iddo (boed o dan y Drwydded neu yn sgil unrhyw setliad neu ddyfarniad sy'n goblygu bod iawndal neu indemniad yn ddyledus iddo mewn cysylltiad â'r Drwydded) yn erbyn ac i'w ddidynnu o'r holl arian sy'n daladwy iddo gan y llall dan y Drwydded neu unrhyw gytundeb neu drefniant arall. *Gwrth-gyfrif*

9.8 Y cyfeiriad a roddir i bob parti yn y Drwydded fydd y cyfeiriad dilys o ran cyflwyno rhybuddion nes bydd y naill barti'n hysbysu'r llall o gyfeiriad newydd yn y Deyrnas Gyfunol. *Rhybuddion*

9.9 Ystyrir bod rhybudd wedi cael ei gyflwyno ar y Diwrnod Gwaith nesaf dilynol os bydd wedi ei gyflwyno â llaw. Bydd unrhyw gyfnod o rybudd a bennir yn y Drwydded yn dechrau ar y diwrnod yr ystyrir i'r rhybudd gael ei gyflwyno a bydd yn cynnwys dyddiau Sadwrn, Sul a Gwyliau Cyhoeddus.

9.10 Ni fydd unrhyw ildiad gan barti ar unrhyw dorri ar unrhyw rai o ddarpariaethau'r Drwydded yn effeithiol oni chaiff ei roi mewn ysgrifen. *Ildiad*

9.11 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ran y naill barti i'r Drwydded i ymarfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi sydd gan y fath barti dan y Drwydded o dan unrhyw amgylchiadau yn amharu ar neu'n gwanhau'r fath hawl, pŵer neu rwymedi nac yn cymryd effaith fel ildiad ohonynt. Ni fydd unrhyw ymarferiad unigol neu rannol gan y naill barti i'r Drwydded o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi dan y Drwydded yn atal unrhyw ymarfer arall neu bellach o'r fath hawl,

pŵer neu rwymedi nac ar unrhyw ymarfer o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall.

9.12 Mae'r hawliau, y pwerau a'r rhwymedïau a ddarperir dan y Drwydded yn gronnol ac nid ydynt yn nacau unrhyw hawliau, pwerau neu rwymedïau a ddarperir gan y gyfraith.

9.13 Ni ddehonglir unrhyw ildiad o unrhyw dorri ar neu fethu â chyflawni unrhyw rai o delerau'r Drwydded fel ildiad o unrhyw dor-cytundeb neu fethiant hwyrach ac ni fydd mewn unrhyw fodd yn effeithio ar delerau eraill y Drwydded.

9.14 Mae'r naill barti a'r llall yn cydnabod ei fod ef wedi bod neu fe fydd mewn sefyllfa i dderbyn, cael gwybod neu ddarganfod Gwybodaeth Gyfrinachol. *Cyfrinachedd*

9.15 Ac eithrio fel y caniateir gan gymal 9.16 isod, yn ystod Cyfnod y Drwydded ac ar bob amser wedi hynny, bydd y ddau barti yn gwneud y canlynol:

9.15.1 cadw holl Wybodaeth Gyfrinachol y llall yn breifat ac yn gyfrinachol; a

9.15.2 peidio, a sicrhau bod eu personél yn peidio â datgelu, gwneud yn gyhoeddus neu'n cyfathrebu i unrhyw berson neu bersonau (boed hynny cyn, yn ystod neu ar ôl Cyfnod y Drwydded, heb gyfyngiad amser), y Wybodaeth Gyfrinachol neu unrhyw ran ohoni neu unrhyw wybodaeth arall sy'n dod i'w feddiant mewn cysylltiad â'r Drwydded neu o ganlyniad iddi.

9.16 Serch hynny, gellir gwneud datgeliad a fyddai fel arall yn cael ei wahardd gan gymal 9.15:

9.16.1 gan y naill barti neu'r llall, lle bo angen ac yn briodol ar gyfer cyflawni'r Drwydded, i'w swyddogion, eu cyflogeion, eu gweithwyr, eu contractwyr a'u cyflenwyr ar yr amod bod y derbynnydd yn cytuno i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol;

9.16.2 gan y naill barti neu'r llall, lle bo angen ac yn briodol ar gyfer cyflawni'r Drwydded, i'w cynghorwyr proffesiynol (e.e. cyfreithiol, ariannol, cydymffurfiaeth) lle mae cynghorwyr o'r fath;

9.16.3 gan y naill barti neu'r llall fel sy'n ofynnol fel arall yn ôl y gyfraith gan gynnwys drwy esiampl ond heb fod yn gyfyngedig i ddatgeliadau a wnaed yn unol ag adran 43A o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (datgeliadau a ddiogelir), datgeliadau i archwilwyr statudol, datgeliadau i CThEM a datgeliadau i OFCOM neu reoleiddiwr, ombwdsmon neu awdurdod goruchwylio arall.

9.17 Bydd darpariaethau'r Drwydded yn weithredol parthed pob rhan o wneuthuriad Rhaglen S4C gan gynnwys unrhyw waith sydd wedi ei wneud cyn i'r Drwydded gael ei harwyddo. *Dehongliad*

9.18 Cytunir bod y Cynhyrchydd yn ymrwymo i'r Drwydded ac yn cyflawni ei ddyletswyddau fel contractwr annibynnol, ac ni fydd dim yn y Drwydded yn awgrymu bod unrhyw fath o bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y Cynhyrchydd ac S4C, ac ni fydd y naill barti na'r llall yn honni ei fod yn gweithredu

fel asiant ar ran y llall, oni bai bod hynny'n cael ei grybwyll yn benodol yn y Drwydded.

9.19 Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo ac yn cytuno y bydd y Cynhyrchydd yn ymrwymo i'r holl gytundebau sy'n berthnasol i wneuthuriad Rhaglen S4C fel pennaeth y cytundeb hwnnw, ac na fydd gan S4C unrhyw gyfrifoldeb fel pennaeth y Cynhyrchydd nas dadlennwyd, ac na fydd y Cynhyrchydd yn ymrwymo credyd S4C nac yn gwneud unrhyw drefniadau cytundebol ar ran S4C. Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod na fydd y Cynhyrchydd yn gallu hawlio dim yn erbyn S4C mewn perthynas â cholli'r cyfle i hyrwyddo enw da'r Cynhyrchydd neu fel arall os bydd S4C yn terfynu'r Drwydded neu'n rhoi'r gorau i gynhyrchu neu'n methu ag Ymelwa ar Raglen S4C.

9.20 Os bydd Llys yn gwahardd unrhyw un o ddarpariaethau'r Drwydded neu'n barnu bod unrhyw un o'r darpariaethau hynny'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n un na ellir ei gweithredu, yna bydd cymaint ag sy'n angenrheidiol o'r ddarpariaeth honno'n cael ei dileu o'r Drwydded, a'i gwneud yn aneffeithiol, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl heb newid y darpariaethau sydd yn weddill yn y Drwydded ac ni fydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw amgylchiadau eraill nac ar ddilysrwydd na gweithredu'r Drwydded.

9.21 Ac eithrio unrhyw ddatganiadau twyllodrus, mae'r Drwydded yn cynnwys y cytundeb cyfan rhwng y partïon i'r Drwydded mewn cysylltiad â thestun y Drwydded a bydd yn disodli pob cytundeb ac ymrwymiad blaenorol mewn perthynas â chynhyrchu Rhaglen S4C ac ni ddibynnodd y naill barti ar unrhyw ddatganiad heblaw am y datganiadau a nodir yn benodol yn y Drwydded.

9.22 Dehonglir y Drwydded fel cytundeb a wnaed yng Nghymru, sy'n ddarostyngedig i Gyfreithiau Cymru a Lloegr (fel y maent yn gymwys yng Nghymru) ac sy'n ddarostyngedig i awdurdodaeth ecsgliwsif Llysoedd Cymru a Lloegr.

9.23 Nid yw'r Drwydded yn creu neu'n breinio unrhyw hawliau dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd-Bartïon) 1999 y gellir eu gweithredu gan unrhyw berson nad yw'n barti i'r Drwydded heblaw am Gwmnïau Teulu S4C ac unrhyw olynydd mewn teitl i neu is-drwyddedai o S4C neu unrhyw un o'i Chwmnïau Teulu a fydd â'r hawl i weithredu'r Drwydded ac unrhyw olynydd mewn teitl neu aseinai i'r Cynhyrchydd yn unol â Chymal 8.1 uchod.

<u>Cymal 10 – Rhyddid Gwybodaeth</u>

10.1 Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod bod S4C yn gorff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ofynion y Cod Ymarfer ar Gael Gweld Gwybodaeth y Llywodraeth (2il argraffiad) y DdRhG a'r Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd a bydd (yn ddarostyngedig i'r darpariaethau isod) yn cynorthwyo ac yn cydweithio ag S4C i alluogi S4C i gydymffurfio â'r cyfryw ofynion datgelu Gwybodaeth. *Rhyddid Gwybodaeth*

10.2 Bydd S4C yn gyfrifol am bennu os yw'r Wybodaeth:

10.2.1 wedi'i heithrio o'i datgelu yn unol â darpariaethau'r Cod Ymarfer ar Gael Gweld Gwybodaeth y Llywodraeth (2il argraffiad), y DdRhG neu'r Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd; neu

10.2.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am Wybodaeth, ac ni fydd y Cynhyrchydd yn ymateb yn uniongyrchol ar unrhyw gyfrif i gais am Wybodaeth oni ei awdurdodir yn benodol gan S4C i wneud hynny ar ran S4C.

10.3 Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod y gall S4C, yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet dan Ran y DdRhG, gael ei gorfodi i ddatgelu Gwybodaeth dan y DdRhG, neu'r Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd neu all benderfynu fod cydymffurfio â chais penodol am Wybodaeth yn gwasanaethu'r budd cyhoeddus yn fwy na gwrthod y cais yn unol ag unrhyw eithriad perthnasol. Bydd S4C yn ymgynghori â'r Cynhyrchydd ble bo hynny'n ymarferol ac yn cymryd ystyriaeth o'i farn. Ble bo barn y Cynhyrchydd yn groes i'r cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan S4C, bydd y cyngor cyfreithiol yn rhagori.

10.4 Mae'r Cynhyrchydd yn cydnabod bod unrhyw restrau neu atodlenni a ddarperir ganddo sy'n amlinellu gwybodaeth gyfrinachol yn cynnig arweiniad yn unig ac, er hynny, y gall S4C neu ei Chwmnïau Teulu gael ei/u gorfodi i ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol yn unol â Chymal 9.3.

<u>Cymal 11 - Atal Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth</u>

Atal Llygredigaeth

11.1 Bydd y Cynhyrchydd yn gwneud y canlynol, ac yn sicrhau y bydd personau sy'n gysylltiedig ag ef neu bersonau eraill sy'n perfformio gwasanaethau mewn cysylltiad â'r Drwydded yn gwneud y canlynol:

(a) cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau perthnasol sy'n ymwneud â gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredigaeth (**Gofynion Perthnasol**) gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 a'r Egwyddorion a Chanllawiau Lefel Uchel Gwrth-Lwgrwobrwyo ar gyfer Cynhyrchwyr Annibynnol fel y'u cyhoeddir ar y Wefan Gynhyrchu.
(b) peidio â gwneud, neu hepgor, unrhyw weithred a fydd yn achosi neu'n arwain S4C i dorri unrhyw un neu ragor o'r Gofynion Perthnasol;

(c) hysbysu S4C yn ysgrifenedig yn ddi-oed os daw'n ymwybodol o unrhyw achos o dorri Cymal 11.1(a) neu 11.1(b) neu os oes ganddo reswm i gredu ei fod ef neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag ef wedi cael cais neu alw am unrhyw fantais ariannol neu fantais ormodol arall;

(ch) meddu ar, a chadw ar waith drwy gydol Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Trwydded Estynedig ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithdrefnau digonol o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gofynion a bydd yn eu gorfodi lle y bo'n briodol.

11.1A (d) o fewn 1 mis i ddyddiad y Drwydded, ac yn flynyddol wedi hynny, ardystio i S4C yn ysgrifenedig a lofnodwyd gan un o swyddogion y Cynhyrchydd, gydymffurfiaeth â'r cymal 11.1 hwn a phawb sy'n gysylltiedig ag ef o dan gymal 11.1A. Bydd y Cynhyrchydd yn darparu unrhyw dystiolaeth ategol o gydymffurfiaeth ag y gall S4C ofyn yn rhesymol amdano.

11.1B Rhaid i'r Cynhyrchydd sicrhau bod unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r Cynhyrchydd sy'n cyflawni gwasanaethau mewn cysylltiad â'r cytundeb hwn yn gwneud hynny dim ond ar sail contract ysgrifenedig sy'n gosod ar berson o'r fath ac yn sicrhau ganddo delerau sy'n cyfateb i'r rhai a osodir ar y Cynhyrchydd yn y cymal hwn, sef cymal 11 (**Telerau Perthnasol**). Bydd y Cynhyrchydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfryw bersonau yn parchu a chyflawni'r Telerau Perthnasol a bydd yn uniongyrchol atebol i S4C am unrhyw doriad gan unrhyw bersonau o unrhyw un o'r Telerau Perthnasol.

At ddibenion y cymal hwn, sef cymal 11, penderfynir ar ystyr gweithdrefnau digonol ac a yw person yn gysylltiedig â pherson arall yn unol ag adran 7(2) o Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 (ac unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan adran 9 o'r Ddeddf honno), adrannau 6(5) a 6(6) o'r Ddeddf honno ac adran 8 o'r Ddeddf honno yn y drefn honno. At ddibenion y cymal 11 hwn, mae person sy'n gysylltiedig â'r Cynhyrchydd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw un o is-gontractwyr y Cynhyrchydd.

11.2 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu nag ydyw wedi talu comisiwn neu wedi cytuno i dalu comisiwn i S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall mewn perthynas â'r Drwydded.

11.3 Os bydd y Cynhyrchydd, ei staff neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Cynhyrchydd neu sy'n cyflawni gwasanaethau mewn cysylltiad â'r Drwydded, yn ymddwyn mewn modd a waherddir gan gymalau 11.1 neu 11.2 uchod, gall S4C:

11.3.1 roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd i naill ai terfynu'r Drwydded ar unwaith neu gymryd drosodd y broses o gynhyrchu'r Rhaglen yn unol â chymal 7.2; a/neu

11.3.2 adennill yn llwyr gan y Cynhyrchydd unrhyw golled a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i dorri'r fath gymalau, terfyniad y Drwydded a/neu gymryd drosodd cynhyrchiad y Rhaglen.

<u>Cymal 11A – Caethwasiaeth a Masnachu Pobl</u>

Atal Caethwasiaeth a Masnachu Pobl

11A Wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Drwydded bydd y Cynhyrchydd yn:

11A.1 cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau gwrth-gaethwasiaeth a masnachu pobl perthnasol mewn grym o bryd i'w gilydd gan gynnwys Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ond heb fod yn gyfyngedig iddi;

11A.2 hysbysu S4C os a chyn gynted ag y daw'n ymwybodol o unrhyw gaethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl mewn cadwyn gyflenwi sydd â chysylltiad â'r Drwydded.

Cymal 12 - Atal Twyll

12.1 Bydd y Cynhyrchydd yn cymryd pob cam rhesymol i atal Twyll gan y Cynhyrchydd a/neu ei staff (gan gynnwys ei gyfranddalwyr, aelodau a chyfarwyddwyr) mewn perthynas ag unrhyw arian a dderbynnir gan S4C. *Atal Twyll*

12.2 Bydd y Cynhyrchydd yn hysbysu S4C ar unwaith os oes ganddo reswm i amau fod unrhyw Dwyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

12.3 Os yw'r Cynhyrchydd, ei staff neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y Cynhyrchydd yn cymryd rhan mewn Twyll mewn perthynas a'r Drwydded hon neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C, gall S4C:

12.2.1 roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd i nail ai terfynu'r Drwydded ar unwaith neu gymryd drosodd y broses o gynhyrchu'r Rhaglen yn unol â chymal 7.2; a/neu

12.3.2 adennill yn llwyr gan y Cynhyrchydd unrhyw golled a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i dorri'r cymal hwn, terfyniad y Drwydded a/neu gymryd drosodd cynhyrchiad y Rhaglen.